



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 (Cymru)

Cyhoeddwyd Ebrill 2020

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol.....	3
2. Beth mae trefniadau rhyddhau COVID-19 yn ei olygu i gleifion?.....	6
3. Beth yw'r camau ar gyfer Byrddau Iechyd GIG Cymru?.....	9
4. Beth yw'r camau ar gyfer Cyngorau a gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion?.....	15
5. Beth yw'r camau ar gyfer Partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lleol?.....	16
6. Beth yw'r camau ar gyfer y Sector Gwirfoddol?.....	19
7. Beth yw'r camau ar gyfer Darparwyr Gofal?.....	21
8. Monitro a chynyddu capasiti adsefydlu.....	23
9. Cymorth Cyllid.....	25
10. Adrodd.....	26
11. Adnoddau a chymorth ychwanegol.....	27
Atodiad A: Model Rhyddhau i Adfer ac Asesu (Cymru).....	28
Atodiad B: Cynnal prosesau penderfynu o ansawdd mewn lleoliadau aciwt.....	32
Atodiad C: Taflenni dewis rhyddhau cleifion	34
Atodiad D: Digartrefedd.....	38
Atodiad E: Teclyn Capasiti Gofal a Chymorth.....	39
Atodiad F: Gofal Iechyd Parhaus y GIG a Chynllunio COVID-19	40
Atodiad G: Canllawiau Trawsffiniol Offer Cymunedol	43
Atodiad H: Trosolwg o wneud penderfyniadau ac uwchgyfeirio	54

1. Crynodeb Gweithredol


- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol, partneriaid trydydd sector a'r sector annibynnol yng Nghymru, a disgwylir iddynt gadw at y canllawiau hyn o 6 Ebrill April 2020.

Bydd llawer o'r cynnwys yn gyfarwydd eisoes oherwydd mae gwaith wedi dechrau ar hybu a mewnbllannu'r ethos 'Pob Dydd yn Cyfri; Cartref yn Gyntaf' ac i weithredu'r Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu, a nodir yn **Atodiad A**.

Mae'r trefniadau i reoli rhyddhau a llif ysbytai yn ystod y cyfnod argyfwng COVID-19 yn gofyn i ni:

- hwyluso'r datblygiadau gwasanaeth ac ymarfer hyn yn eang ac yn gyflym: a
- cronni'r arbenigedd a'r dysgu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

- 1.2 Er eglurder, mae'r opsiynau rhyddhau a'r llwybrau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn cael eu crynhoi isod:



Ffigur 1: Opsiynau Model Rhyddhau i Adfer ac Asesu (Cymru)


- 1.3 Os nad oes angen iddynt fod yn yr ysbyty, (gweler **Atodiad B**), ni ddylai cleifion aros mewn gwely GIG.
- 1.4 Yn seiliedig ar y meini prawf hyn, rhaid i ysbytai aciwt a chymunedol ryddhau pob claf cyn gynted ag y bydd yn glinigol ddiogel i wneud hynny. Dylai trosglwyddo o'r ward i ardal ryddhau ddynodedig ddigwydd o fewn awr i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud. Dylai rhyddhau o'r ysbyty ddigwydd cyn gynted â phosibl wedi hynny, fel arfer o fewn 2 awr.

- 1.5 Rhaid i ysbytai aciwt a chymunedol gadw rhestr o'r rhai hynny sy'n addas i'w rhyddhau ac adrodd ynghylch nifer y cleifion sydd wedi gadael yr ysbyty yn yr adroddiad dyddiol ar y sefyllfa.
- 1.6 Bydd gweithdrefnau adrodd arferol ar gyfer Oedi wrth Drosoglwyddo Gofal yn cael eu hatal yn ystod y cyfnod hwn. Yn hytrach, bydd diweddariadau cryno yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn wythnosol, fel bod modd deall a mynd i'r afael â rhwystrau rhag gweithredu. Ni ddefnyddir y data hwn at ddibenion rheoli perfformiad.
- 1.7 Ni fydd angen asesiadau Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP) ar gyfer unigolion ar y llwybr rhyddhau aciwt mewn ysbytai ac mewn lleoliadau cymunedol tan ddiwedd y cyfnod argyfwng COVID-19.
- 1.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu dadansoddiad cyflym o'r adnoddau sydd eu hangen i alluogi cymunedau iechyd a gofal cymdeithasol i ariannu cost pecynnau cymorth iechyd a gofal cymdeithasol newydd neu estynedig y tu allan i'r ysbyty y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn. Bydd manylion pellach yn cael eu rhannu gyda Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn fuan ac ni ddylai hyn greu oedi cyn gweithredu'r canllawiau yn y cyfamser.
- 1.9 Gellir rhyddhau mwyafrif llethol y cleifion heb gefnogaeth bellach, y tu hwnt i'w mecanweithiau cefnogaeth arferol, fel perthnasau, ffrindiau a chymdogion. Bydd eraill angen cymorth ymarferol byr dymor gyda thasgau fel sy'n cael ei gynnig gan gynlluniau rhyddhau trydydd sector (Opsion 0 yn Ffigur 1). I'r rhai a fydd angen cefnogaeth barhaus, y rhagosodiad fydd mynediad ar eu hunion i Lwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu (Opsionau 1-4 yn Ffigur 1).
- 1.10 Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth agos y gellir cyflawni'r model Rhyddhau i Adfer ac Asesu. Bydd canolfannau cymunedol lleol yn cydweithio'n agos ac yn ddyddiol:
- Yn adolygu'r capasiti cymunedol sydd ar gael. I ategu hynny, bydd gan arweinwyr rhyddhau allweddol fynediad at y Teclyn Capasiti Gofal a Chymorth o 6 Ebrill 2020;
 - Yn lleihau'r peryglon sydd ynghlwm wrth gysylltiadau lluosog i gleifion, ac yn ceisio gweithredu trefniadau dwyochrog ar gyfer tasgau dirprwyedig rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol. Er enghraifft, yn amodol ar ganllawiau a threfniadau llywodraethu sefydledig¹, tasgau nyrsio syml y gallai staff gofal cartref eu cyflawni'n briodol, ac i'r gwrthwyneb;
 - Sicrhau bod mecanweithiau olrhain cadarn ar waith fel nad yw defnyddwyr gofal yn mynd ar goll yn y system ar adeg o ymateb cyflym iawn.

¹ <https://aagic.gig.cymru/newyddion/canllawiau-dirprwyo-cymru-gyfan/>

- 1.11 Mae'r adrannau canlynol yn manylu ar yr hyn y mae'r newidiadau hyn yn ei olygu i bob sector iechyd a gofal sydd â rôl mewn rhyddhau o'r ysbyty ac yn darparu eglurder ar y camau y mae angen i sefydliadau eu cymryd ar unwaith. Ategir y wybodaeth hon gan gardiau gweithredu penodol sy'n amlinellu sut y dylai rolau allweddol weithio'n wahanol yn ystod y cyfnod hwn, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wahân a'u trafod fel rhan o'r gefnogaeth genedlaethol i'r newidiadau hyn (gweler Adran 11).
- 1.12 Mae angen mecanweithiau atebolrwydd ac uwchgyfeirio clir ar bob cam o'r broses rhyddhau i asesu'r drefn ym mhob ardal (gweler **Atodiad G**).

Ffigur 2: Trosolwg o Broses Ryddhau COVID-19



2. Beth mae trefniadau rhyddhau COVID-19 yn ei olygu i gleifion?

2.1 Bydd y Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty a nodir yn y ddogfen hon eisoes yn gyfarwydd i gydweithwyr ieuchyd, gofal cymdeithasol, partneriaid trydydd sector a'r sector annibynnol yng Nghymru. Mae gwaith wedi dechrau ar hybu a mewnbllannu'r ethos 'Pob Dydd yn Cyfri; Cartref yn Gyntaf' ac i weithredu'r Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu, a nodir yn **Atodiad A**. Mae papurau cynghori 'Sut Beth yw Da' wedi eu datblygu ar y cyd gyda'r asiantaethau partner a'u cyhoeddi².


2.2 Mae'r trefniadau i reoli rhyddhau a llif ysbytai yn ystod y cyfnod argyfwng COVID-19 yn gofyn i ni:

- hwyluso'r datblygiadau gwasanaeth ac ymarfer hyn yn eang ac yn gyflym: a
- cronni'r arbenigedd a'r dysgu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Bydd gwneud hynny yn caniatáu i ni ddarparu'r profiad gorau ar gyfer y rhai hynny sydd angen gofal ysbyty aciwt, tra'n cefnogi adferiad a lleihau'r risg i'r rhai hynny nad ydynt angen bod mewn gwely ysbyty aciwt mwyach.

2.3 Gellir rhyddhau mwyafrif y cleifion heb gefnogaeth bellach, y tu hwnt i'w mecanweithiau cefnogaeth arferol, fel perthnasau, ffrindiau a chymdogion. Bydd eraill angen cymorth ymarferol byr dymor gyda thasgau fel sy'n cael ei gynnig gan gynlluniau rhyddhau trydydd sector. I'r rhai a fydd angen cefnogaeth barhaus, y rhagosodiad fydd mynediad ar eu hunion i Lwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu. Er eglurder, mae'r opsiynau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn cael eu crynhoi yn **Ffigur 1** isod:

² <http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/407/page/36206>



Ffigur 1: Opsiynau Model Rhyddhau i Adfer ac Asesu (Cymru)

- 2.4 Ar y diwrnod y mae claf i gael ei rhyddhau (yn dilyn trafodaethau gyda'r claf, ei deulu ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sydd ynghlwm wrth eu gofal, gan ddefnyddio taflenni B1/B2 yn Atodiad C), bydd y ward yn trefnu i hebrwng y claf i lolfa ryddhau'r ysbyty, fel y gellir defnyddio eu gwely aciwt yn syth gan rywun gwael iawn sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty.
- 2.5 O fewn dwy awr i gyrraedd y lolfa ryddhau, bydd y cydlynwyr rhyddhau yn trefnu cludiant adref, unrhyw gefnogaeth gan wirfoddolwyr a'r sector gwirfoddol a mesurau ymarferol brys, fel siopa a thanio'r gwres, ar gyfer unrhyw un sydd heb neb i wneud hynny ar eu rhan.
- 2.6 Lle bynnag y bo modd, defnyddiwch brotocolau aseswyr dibynadwy i sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiwallu anghenion uniongyrchol yr unigolyn wrth gael ei ryddhau. Lle nad oes protocolau aseswyr dibynadwy ar waith, bydd angen i dîm proffesiynol arweiniol neu dîm amlddisgyblaethol, fel sy'n addas ar gyfer lefel yr anghenion gofal, ymweld â chleifion gartref ar ddiwrnod eu rhyddhau neu drannoeth, i benderfynu pa gymorth sydd ei angen yn amgylchedd y cartref a threfnu i hynny gael ei roi ar waith yn gyflym. Os oes angen cymorth gofal ar

ddiwrnod ei ryddhau o'r ysbyty, bydd hyn wedi'i drefnu gan gydlynnydd gofal cyn i'r claf adael safle'r ysbyty.

- 2.7 Ar gyfer y cleifion hynny y mae eu hanghenion yn rhy fawr iddynt ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain, trefnir trosglwyddiad i gyfleuster gofal llai dwys gyda gwelyau, a allai fod yn ysbyty bwthyn, cartref gofal neu gyfleuster dwysâd brys arall.
- 2.8 Yn ystod y pandemig COVID-19, ni fydd cleifion sy'n trosglwyddo i leoliad cartref gofal newydd yn gallu aros yn yr ysbyty hyd nes y bydd lle gwag yn y cartref gofal o'u dewis. Bydd hyn yn golygu arhosiad dros dro mewn cartref gofal arall.
- 2.9 Bydd partneriaid y GIG a'r Awdurdod Lleol yn olrhain ac yn monitro pob unigolyn mewn cyfleusterau gofal llai dwys gyda gwelyau ac mewn cartrefi gofal nad yw'n ddewis cyntaf ganddynt. Bydd y cydlynwyr gofal enwebedig yn gwneud gwaith dilynol i sicrhau bod cleifion yn gallu trosglwyddo yn ôl i'w cartref eu hunain, neu symud i'w cartref gofal tymor hir, cyn gynted â phosibl.

3. Beth yw'r camau ar gyfer Byrddau Iechyd GIG Cymru?




'Pam ddim gartref? Mae pob awr yn cyfri'

Mae angen i Fyrddau Iechyd adolygu eu prosesau yn gyflym a sicrhau eu hunain bod eu harferion yn addas i'r diben er mwyn cyflawni'r model rhyddhau i adfer ac asesu.

3.1 Lefel ward (ysbytai aciwt ac is-aciwt):

- Cynhelir adolygiad ar sail glinigol o'r holl gleifion yn ystod rownd fwrdd yn gynnar yn y bore. Bernir bod unrhyw glaf sy'n bodloni'r meini prawf clinigol diwygiedig, h.y. y mae ei driniaeth aciwt wedi'i chwblhau, yn addas i'w ryddhau.
- Bydd ail rownd fwrdd yn ystod y prynhawn yn cytuno ar unrhyw gleifion pellach nad oes angen iddynt fod yn yr ysbyty ac y gellir felly eu rhyddhau.
- Dylai cydweithwyr gofal cymdeithasol, neu gynrychiolwyr priodol o'r tîm rhyddhau integredig, fod yn rhan o'r adolygiadau ward ddwywaith y dydd. Bydd hyn yn helpu i nodi'n fuan unrhyw faterion gofal a chymorth, problemau posibl gyda lleoli neu letya wrth ryddhau ac yn caniatáu i'r tîm amlddisgyblaethol ymgymryd â'u trefniadau mewn da bryd. Dylid defnyddio opsiynau rhithwir lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- Sicrhau arweinyddiaeth broffesiynol a chlinigol rhwng nyrsio, meddygaeth a phroffesiynau iechyd cysylltiedig ar gyfer rheoli penderfyniadau a defnyddio'r pwyntiau procio yn y blwch isod:

Ffigur 3: Pwyntiau procio ar gyfer rowndiau bwrdd ar wardiau ysbyty aciwt



 Ydy'r driniaeth aciwt wedi'i chwblhau?

 A ellir darparu gofal yr unigolyn hwn mewn lleoliad arall bellach?

 A oes angen i'r unigolyn hwn fod ar y Llwybr Rhyddhau i Adfer ac Asesu? Os oes, ar ba un? *Meddyliwch 'Cartref yn Gyntaf'*

 Beth sydd o blaid cadw'r unigolyn hwn ar ward aciwt, o wrthbwysu hynny gyda'r risg?

 Pam ddim gartref? Pam ddim heddiw?

 Os nad heddiw, pryd? (Dyddiad rhyddhau disgwylidig)

 Beth ddylai ddigwydd nesaf? (Camau ar gyfer heddiw)

- Bydd yr holl gleifion nad oes angen iddynt fod yn yr ysbyty ac y gellir eu rhyddhau yn cael eu hychwanegu i'r rhestr ryddhau a llwybr rhyddhau yn cael ei ddosrannu ar eu cyfer. Rhyddhau i'r cartref heddiw ddylai'r llwybr diofyn fod.
- Wrth benderfynu rhyddhau, dylid hysbysu'r claf a'i deulu neu ei ofalwr, darparwyr gofal presennol, ac unrhyw weithwyr tai â chymorth ffurfiol a throsglwyddo'r ffurflen berthnasol (gweler Atodiad C).
- Rhaid hysbysu unigolion a'u teuluoedd ynghylch y camau nesaf.
- Bydd y cydlynnydd yn mynd i'r afael â'r holl agweddau ymarferol, gan gynnwys argaeledd y darparwr gofal presennol, trefniadau cludiant, meddyginiaeth, cyfathrebu rhyddhau ac ati.
- Trosglwyddo o'r ward i lolfa ryddhau o fewn awr i'r penderfyniad i ryddhau claf.
- Yn ystod cyfnod COVID-19, dylid rhyddhau cleifion gyda chyflenwad o hyd at 28 diwrnod o feddyginiaeth, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol.

- Mewn rhai amgylchiadau prin, yn dibynnu ar brognosis yr unigolyn (e.e. 24 awr neu lai), gallai fod yn briodol i ysbytai roi ychydig bach o feddyginiaethau gofal lliniarol wrth ryddhau claf, i gefnogi gofal diwedd oes yn y lleoliad o'i ddewis. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ysbytai **beidio** â gwneud hynny fel mater o drefn. Gellir cael gafael ar unrhyw gyflenwadau pellach sy'n ofynnol y tu hwnt i'r amserlen hon trwy'r mecanweithiau arferol.

3.2 Timau Rhyddhau Ysbyty:

- Darparu cyngor arbenigol a chefnogaeth i'r timau wardiau ynghylch y Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu addas. Gweithredu fel cyswllt datrys problemau rhwng yr ysbyty a thimau cymunedol
- Trefnu staff penodedig i gefnogi a rheoli'r holl gleifion ar Lwybr 0. Bydd hyn yn cynnwys:
 - cydlynu gyda chyflenwyr cludiant
 - y sector gwirfoddol lleol a grwpiau gwirfoddol yn helpu i sicrhau cefnogaeth weithredol (yn ôl yr angen) am y 48 awr gyntaf wedi'r rhyddhau
 - darparu cymorth 'setlo i mewn' ble mae ei angen
- Darparu cynllunio rhyddhau effeithiol ar gyfer pobl heb gartrefi i fynd iddynt a sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei ryddhau i'r stryd. Gweler Atodiad D am fanylion pellach ynghylch digartrefedd.
- Os nad ydynt eisoes ar waith, hyfforddi staff rhyddhau (y rhai hynny nad ydynt bellach o bosibl yn cyflawni asesiadau GIP) i weithredu 'Asesiadau Dibynadwy' ar gyfer cleifion o gartrefi gofal sydd yn yr ysbyty, fel y gallant ddychwelyd i'w cartref gofal yn brydlon, a chefnogi'r holl gartrefi gofal gyda'r trefniadau rhyddhau newydd hyn.

Ffigur 4: Awgrymiadau i gynyddu hyder wrth ryddhau

I greu rhwyd ddiogelwch a chynyddu hyder wrth ryddhau, ystyriwch:

-  **Dilyniant yn nwylo'r claf.** Cleifion i gael rhif uniongyrchol y ward y cawsant eu rhyddhau ohoni, er mwyn ffonio i holi am gyngor. (Peidiwch ag awgrymu eu bod yn gweld eu meddyg teulu nac yn dod i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys)
-  **Ffonio'r diwrnod ar ôl eu rhyddhau** i holi eu hynt ac i gynnig cysur/cyngor
-  **Cysylltu'n ôl â nhw** gyda chanlyniadau archwiliadau ac unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau i gynllun rheoli'r claf. Sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r timau/darparwr gofal Rhyddhau i Adfer ac Asesu, ac i'r meddyg teulu
-  **Os oes angen, dod â nhw yn ôl i ofal yr un tîm/arbenigedd**
-  **Holi i Nyrsio Cymunedol** am ddilyniant ar gyfer angen clinigol penodol
-  **Holi am ddilyniant gan Feddyg Teulu** mewn rhai achosion dethol

3.3 Tîm arwain clinigol a rheolaethol ysbyty:

- Creu mannau rhyddhau diogel a chyfforddus i drosglwyddo cleifion iddynt o fewn awr i benderfynu eu rhyddhau, gan sicrhau digon o le ar gyfer niferoedd cynyddol o unigolion i'w rhyddhau.
- Cynnal trosglwyddiad gwybodaeth amserol ac o ansawdd uchel i Feddygfeydd Teulu a gweithwyr iechyd a gofal perthnasol arall ynghylch pob claf sy'n cael ei ryddhau.
- Uwch staff clinigol i fod ar gael i gefnogi staff ward a staff rhyddhau gyda threfniadau cymryd risg a chynghor clinigol priodol.
- Pan fo hynny'n berthnasol i'r claf, cynhwysir canlyniadau prawf COVID-19 yn y ddogfennaeth ar gyfer yr unigolyn wrth iddo gael ei ryddhau. Os nad yw canlyniadau'n barod wrth ryddhau'r claf, sicrhau eu bod yn cael eu hanfon ymlaen yn brydlon at y claf, y meddyg teulu ac unrhyw ddarparwyr gofal neu gymorth.
- Sicrhau bod yr holl gleifion y nodwyd eu bod yn nyddiau neu wythnosau olaf eu bywyd yn cael eu trosglwyddo'n gyflym i ofal timau gofal lliniarol cymunedol a fydd yn gyfrifol am gydlynw a hwyluso rhyddhau cyflym i'r cartref (a allai fod yn gartref gofal) neu hosbis. Dylai timau gofal lliniarol cymunedol fod â threfniadau ar waith i ddarparu cyngor, hyfforddiant a chefnogaeth i deulu / gofalwyr a darparwyr gofal a chymorth.
- Dilyn canllawiau Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn unol â'r manylion a nodir yn Atodiad F.
- Rhyddhau adnoddau staff o brosesau asesu Gofal Iechyd Parhaus y GIG i gefnogi gweithgareddau rhyddhau i asesu.

3.4 Gwasanaethau Iechyd Cymunedol

Os nad yw hynny'n digwydd eisoes, disgwylir i dimau gofal iechyd cymunedol ddiweddarau eu prosesau a'u dulliau o weithio i gyflenwi'r model rhyddhau i asesu. Bydd gwasanaethau iechyd cymunedol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

Fel rhan o hyn, dylent:

- Nodi Arweinydd Gweithredol i oruchwylio'r gwaith o weithredu a chyflenwi'r model rhyddhau i asesu yn yr ysbytai aciwt yn eu hardal. Dylai'r model fod yn weithredol o leiaf rhwng 8am ac 8pm 7 diwrnod yr wythnos.
- Rhyddhau staff o'u rolau presennol i gydlynw a rheoli trefniadau rhyddhau ar gyfer yr holl gleifion ar Lwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu. Bydd hyn yn cynnwys cleifion sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai aciwt a chymunedol, a chyfleusterau gofal llai dwys gyda gwelyau eraill (mewn cartrefi gofal neu gapasiti dwysâd brys).
- Bod ag un pwynt cyswllt hygyrch a fydd bob amser yn derbyn asesiadau gan staff yn yr ysbyty a threfnu'r gofal y gofynnwyd amdano, ar y cyd ag awdurdodau lleol.
- Darparu enw pwynt cyswllt i dderbyn ac ymateb i ymholiadau gan ddarparwyr gofal.
- Cyflenwi therapi galwedigaethol a ffisiotherapi ehangach 7 diwrnod yr wythnos i leihau'r amser y mae angen i glaf aros mewn gwely gofal llai dwys, yn amodol ar flaenoriaethu clinigol yn ystod y cyfnod argyfwng COVID-19.
- Defnyddio timau amlddisgyblaethol ar y diwrnod y mae claf yn cyrraedd adref o'r ysbyty, i asesu a threfnu pecynnau gofal ar gyfer cleifion ar Lwybrau 1 a 2.
- Sicrhau bod digon o offer yn cael ei ddarparu i gefnogi rhyddhau.

- Sicrhau bod cleifion ar Lwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu 1 i 4 yn cael eu holrhain a'u dilyn, i'w hasesu ar gyfer anghenion tymor hir wedi'r cyfnod o adfer.
- Cynnal llif cleifion o welyau yn y gymuned gan gynnwys pecynnau ail-alluogi ac adsefydlu mewn cartrefi, er mwyn caniatáu i'r setiau nesaf o gleifion gael eu rhyddhau o ofal aciwt.

3.5 Ar gyfer cleifion y nodwyd eu bod yn nyddiau neu wythnosau olaf eu bywyd, bydd timau cymunedol yn gweithio gyda thimau Gofal Lliniarol arbenigol i gydlynw a hwyluso rhyddhau cyflym i'r cartref neu hosbis. Mae hyn yn disodli'r broses diwedd oes gyflym gyfredol.

4 Beth yw'r camau ar gyfer Cynghorau a gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion?

Fel rhan o'r model rhyddhau i asesu, disgwylir i awdurdodau lleol:

- Benodi Arweinydd Gweithredol ar gyfer gweithredu a chyflenwi'r model Rhyddhau i Asesu.
- Cytuno ar drefniant un pwynt cyswllt ar gyfer pob bwrdd iechyd, sef y pwynt cyswllt wrth gydlynau rhyddhau pob claf.
- Defnyddio staff gwaith cymdeithasol, gofal cymdeithasol a therapi galwedigaethol yn hyblyg ar draws ysbytai a lleoliadau cymunedol i gefnogi cleifion sydd ar y Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu.
- Dylai ymchwiliadau diogelu barhau i ddigwydd mewn lleoliad ysbyty, os yw'r angen yn codi.
- Atal yr angen am baneli cyllido ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty yn ystod y digwyddiad COVID-19, gydag arian ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol i dalu am unrhyw gostau uwch yn ystod y cyfnod hwn.
- Cefnogi cyfathrebu amser real rhwng yr ysbyty a'r un pwynt cyswllt, nid dim ond trwy gyfrwng e-bost.
- Darparu capasiti i gyfrannu at adolygiad o'r ddarpariaeth gofal yn ystod yr ymyriad Rhyddhau i Adfer ac Asesu.
- Sicrhau bod timau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol ar waith 7 diwrnod yr wythnos.

5. Beth yw'r camau ar gyfer Partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lleol?

5.1 Bydd gweithio mewn partneriaeth agos yn allweddol er mwyn cyflenwi Gofynion Rhyddhau o Ysbyty COVID-19. Bydd angen i bartneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol wneud y canlynol:

- Gweithio gyda'i gilydd a rhannu staff i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a blaenoriaethu o safbwynt rhyddhau cleifion, gan barchu llwybrau comisiynu lleol addas.
- Yn ddyddiol, adolygu capasiti ar draws y system, gan gronni gwybodaeth o safleoedd ysbyty, timau cymunedol a'r Teclyn Capasiti Gofal a Chymorth cenedlaethol, a fydd ar gael i dimau rhyddhau o fis Ebrill 2020.
- Er mwyn lleihau'r risgiau a all godi wrth i glaf gael cysylltiadau niferus, ceisio gweithredu trefniadau dwyochrog ar gyfer tasgau wedi'u dirprwyo rhwng staff Iechyd a gofal cymdeithasol. Er enghraifft, tasgau nyrsio syml y gallai staff gofal cartref eu cyflawni'n briodol ac fel arall.
- Sicrhau bod mecanweithiau olrhain cadarn ar waith fel nad yw defnyddwyr gofal yn mynd ar goll yn y system ar adeg o ymateb cyflym iawn. Monitro pob unigolyn mewn cyfleusterau gofal llai dwys gyda gwelyau neu gartrefi gofal nad ydynt yn rhai dewis cyntaf. Bydd y cydlynwyr gofal enwebedig yn gwneud gwaith dilynol i sicrhau bod cleifion yn gallu trosglwyddo yn ôl i'w cartref eu hunain, neu symud i'w cartref gofal hirdymor, cyn gynted â phosibl.
- Cydlynu gwaith gyda sefydliadau sector gwirfoddol lleol a chenedlaethol i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i bobl sydd angen cefnogaeth ynghylch rhyddhau o'r ysbyty ac adferiad dilynol.

- Cydweithio i ehangu capasiti gofal cartref, cartrefi gofal a gwasanaethau ail-alluogi yn yr ardal leol.

5.2 Offer a thechnoleg gynorthwyol:

Bydd angen i gydlynwyr arweiniol enwebedig ar gyfer pob Storfa Offer ar y Cyd leol sicrhau bod mynediad at ddigon o offer i gefnogi rhyddhau pobl ag anghenion adsefydlu neu ail-alluogi gartref:

- Bydd angen i wasanaethau offer lleol (ar draws y GIG a llywodraeth leol) fod â chyflenwad digonol o'r offer mwyaf cyffredin ar gyfer cefnogi pobl ag anghenion adsefydlu neu ail-alluogi neu ofal hirdymor.
- Gellir cael gafael ar offer o'r fath yn gyflym (ar yr un diwrnod ble bo angen) ac yn hwylus saith diwrnod yr wythnos (gan ddefnyddio cyd-gymorth gydag ardaloedd cyfagos ac adleoli staff cymunedol os oes angen). Gall hyn gynnwys prynu offer ychwanegol ac ailgylchu, glanhau ac aildddefnyddio offer.
- Mae darparwyr yn barod ar gyfer goblygiadau cynnydd cyflym yn y galw am offer adsefydlu, yn cynnwys ceisiadau am gyflenwi ar y diwrnod.
- Defnyddio'r canllawiau trawsffiniol i leihau camau diangen ar lwybrau darpariaeth a chymhwyso statws 'aseswr dibynadwy' i bartneriaid. (Gweler Atodiad G)
- Sicrhau capasiti ar gyfer asesiadau a sicrhau bod offer ar gael y gellir ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r angen am ddau ofalwr i ddarparu gofal i unigolion, neu leihau amllder galwadau er mwyn cynyddu capasiti'r gweithlu.
- Dylid sefydlu proses gymeradwyo syml ar gyfer cleifion mwy cymhleth sydd angen gwelyau ysbyty, offer lleddfu pwysedd a theclynnau codi. Dylai hyn ddigwydd trwy drafodaeth a chymeradwyaeth lafar er mwyn archebu. Bydd y broses o gymeradwyo gan uwch glinigwyr a matricesau presgripsiwn offer cyfredol yn cael eu hatal dros dro.
- Adolygu ac olrhain offer a gyflenwyd yn rheolaidd. Bydd y cyfrifoldeb dros adolygu offer unwaith y bydd claf yn cael ei ryddhau yn nwylo'r sefydliad sy'n gyfrifol am y gofal.

- Lle maent ar gael, ystyriwch ddefnyddio ffotograffau wedi'u cyflenwi gan deulu/gofalwyr/staff cymunedol yn gynnwys Nyrsys Ardal fel dewis arall yn lle cwblhau ymweliadau mynediad ac asesu risg ar gyfer cleifion mwy cymhleth. Os oes angen ymweliad, bydd angen trefnu hyn cyn pen 4 awr ar ôl penderfynu rhyddhau claf.
- Defnyddir gwybodaeth olrhain rhyddhau cleifion i sicrhau bod storfeydd wrth gefn/is-storfeydd yn cael eu hailstocio, er mwyn cynnal y cyflenwad.
- Mae ystod gynhwysfawr o eitemau technoleg gynorthwyol i gefnogi pobl i fyw yn ddiogel ac yn annibynnol gartref, a byddant ar gael y diwrnod canlynol os oes angen cymorth. Mae hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i larymau codwm.
- Mae stoc yn cynnwys larymau nwy, carbon monocsid a mwg, yn cynnwys dyfeisiau sy'n cefnogi pobl sy'n ddall a/neu fyddar, synwryddion tymheredd, synwryddion symudiad, synwryddion presenoldeb mewn gwely/cadair a synwryddion llifogydd. Dylid gweithio gydag asiantaethau eraill, fel y gwasanaeth tân, ble bynnag mae hyn yn bosibl yn lleol.
- Mae synwryddion enwresis, synwryddion epilepsi a dosbarthwyr meddyginiaeth dros gyfnod o 28 diwrnod ar gael. Gellir sicrhau bod offer ar gael am gost isel a dylai'r offer fod yn syml ei osod a heb fod yn barhaol.

6. Beth yw'r camau ar gyfer y Sector Gwirfoddol?

Mae llawer o systemau eisoes yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol i hwyluso rhyddhau cleifion yn gyflym ac yn ddiogel. Bydd Llywodraeth Cymru yn dal i ariannu gwasanaeth Llesiant mewn Adrannau Argyfwng a Dychwelyd Adref yn ddiogel, a gyflenwir gan y Groes Goch Brydeinig, a'r gwasanaeth Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach a gyflenwir gan Gofal a Thrwsio Cymru, i hwyluso rhyddhau cleifion o ysbytai cyffredinol dosbarth Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn parhau i fod ar gael i Fyrddau Iechyd yn ystod y pandemig a thrwy gydol 2020/21, ac mae'r ddau sefydliad wedi cytuno i fod yn hyblyg i anghenion Byrddau Iechyd lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys trwy ehangu gwasanaethau os yw hynny'n ddymunol/yn ofynnol.

6.1 Dylai'r sector:

- Symud yn gyflym a chanolbwyntio ar ddiogelwch a phrofiadau cadarnhaol i gleifion ar y llwybrau rhyddhau, gan alluogi cleifion i deimlo eu bod yn cael cefnogaeth gartref. Gallant hefyd helpu cleifion anfodlon i deimlo'n llawer mwy cyfforddus ynglŷn â chael eu rhyddhau.
- Darparu ystod o gymorth ymarferol i hwyluso rhyddhau cyflym, gan gynnwys cludo adref ac offer fel coffrau allweddi.
- Cefnogi cleifion a ryddhawyd gyda gwasanaethau setlo yn y cartref er mwyn cynnal llesiant yn y gymuned (e.e. gwiriadau diogelwch a siopa bwyd hanfodol).
- Darparu cefnogaeth barhaus yn y gymuned i gefnogi llesiant emosiynol, fel galwadau ffôn dyddiol llesiant a chwmniaeth.

- Ymgysylltu â darparwyr y GIG (yn enwedig timau rhyddhau) i ddarparu atebion i heriau gweithredol rhyddhau, gan alluogi staff clinigol i ymgymryd â gweithgareddau eraill – gan ganolbwyntio ar y cleifion ar lwybr 0.
- Defnyddio sefydliadau gwirfoddol lleol sefydledig ar gyfer llwybrau rhyddhau a gwella'r gwasanaeth gyda mewnbwn gan sefydliadau gwirfoddol mawr.
- Cydlynu cefnogaeth rhwng sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr presennol o fewn darparwyr y GIG.
- Mynd i gartref claf cyn ei ryddhau er mwyn derbyn offer.

6.2 Gwirfoddolwyr GIG i gefnogi rhyddhau o ysbyty

Yn ychwanegol at y gefnogaeth a gynigir gan y sector gwirfoddol fel rhan o'r ymateb i COVID-19, dylai ysbytai ystyried sut i ddefnyddio eu gwirfoddolwyr GIG mewn rolau gwirfoddoli sy'n gallu lleihau'r pwysau ar wasanaethau fwyaf. Mae llawer o ysbytai yn defnyddio gwirfoddolwyr i gynorthwyo pobl i baratoi i fynd adref o'r ysbyty, gan sicrhau bod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt a bod popeth yn ei le yn eu cartref. Gallant gyflymu'r broses ryddhau yn fawr a hefyd lleihau'r tebygolrwydd o glaf yn gorfod dychwelyd i'r ysbyty trwy sicrhau bod gan yr unigolyn y gefnogaeth a'r adnoddau cywir ar waith gartref. Gall gwirfoddolwyr hefyd ddarparu cyngor a chyfeirio at wasanaethau cymorth cymunedol a chynyddu hyder cleifion ynghylch gadael yr ysbyty a mynd adref.

Gall y porthol gwirfoddoli <https://volunteering-wales.net/vk/volunteers/index-covid.htm?lang=CY> a Chynghorau Gwirfoddoli Sirol hefyd gynnig cyfleoedd amgen i gynnig neu i chwilio am gefnogaeth gwirfoddolwyr.

<https://llyw.cymru/gwirfoddoli-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws>

7. Beth yw'r camau ar gyfer Darparwyr Gofal?

Sylwer: Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y broses rhyddhau.

Mae gwybodaeth bellach am ofal cleifion sy'n cael eu rhyddhau i gartrefi preswyl neu i dderbyn cefnogaeth gofal cartref yn cael ei ddatblygu, a chaiff ei gyhoeddi ar y wefan a nodir yn Adran 11.

7.1 Darparwyr Cartrefi Gofal:

- Cynnal capasiti a nodi lleoedd gwag y gellir eu defnyddio at ddibenion rhyddhau o'r ysbyty.
- Gofynnir i Reolwyr Cofrestredig ddefnyddio ap y Teclyn Capasiti Gofal a Chymorth a ddarperir gan DEWIS i hysbysu cydweithwyr GIG a gofal cymdeithasol o wybodaeth am lleoedd gwag mewn amser real. (Gweler Atodiad F)
- Dylai darparwyr Cartrefi Gofal, ar y cyd â'u timau Iechyd Cymunedol Lleol, ystyried y ffordd orau o fodloni anghenion iechyd eu preswylwyr, yn eu hamgylchedd cyfarwydd, lle bynnag y bo modd.
- Os nad oes perthnasoedd a threfniadau Aseswr Dibynadwy ar waith, gweithiwrch gyda'r tîm rhyddhau ar fyrder i weithredu'r rheolau a'r prosesau hyn (Gweler Adran 11 am ddolenni i wybodaeth bellach).

7.2 Darparwyr gofal cartref:

- Gweithio'n agos gydag arweinwyr contractau iechyd a gofal cymdeithasol oedolion i wneud y gorau o'r capasiti presennol, a nodi capasiti ychwanegol os oes angen, i gefnogi rhyddhau o'r ysbyty.

Cludiant Cleifion:

- Mae Gwasanaethau Cludo Cleifion Di-Argyfwng (NEPTS) yn adnodd hanfodol ar gyfer symud cleifion di-argyfwng o un lleoliad gofal i leoliad mwy addas ar safle arall, a bydd angen i wasanaethau fod yn fwy ymatebol. Yng Nghymru, cydlynir yr holl gludiant di-argyfwng gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru.
- Disgwylir i NEPTS Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC), a darparwyr annibynnol a sector gwirfoddol, ddarparu cymorth fel y gellir trosglwyddo cleifion fel rhan o'r broes ryddhau ac i gefnogi trosglwyddo a rhyddhau fel blaenoriaeth er mwyn cynnal y llif a diogelu cleifion gymaint ag sy'n bosibl.
- Canllawiau ychwanegol ynghylch sut y galluogir NEPTS i gyflawni hyn trwy gydol yr argyfwng hwn.
- Dylai sefydliadau ystyried mecanweithiau i hysbysu YGAC wrth i uwchgyfeirio a chapasiti ychwanegol gael eu defnyddio. Gallai hyn olygu opsiynau cludiant amgen yn cynnwys:
 - Cerbydau sy'n eiddo i, neu wedi'u contractio i Awdurdod Lleol
 - Ceir gwirfoddolwyr
 - Adnoddau'r sector gwirfoddol
 - Gwasanaethau tacsï

8. Monitro a chynyddu capasiti adsefydlu

8.1 Ar ôl yr elfen gyntaf o ryddhau cleifion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod mewn ysbyty aciwt hospital, bydd cynnal y dull hwn yn hanfodol mewn perthynas ag unrhyw gyfleusterau adsefydlu neu ofal llai dwys a gwasanaethau gofal yn y cartref ehangach. Bydd hyn yn osgoi creu rhwystrau yn y cyfleusterau/gwasanaethau cymunedol ac yn atal y setiau nesaf o gleifion rhag cael eu rhyddhau o ofal aciwt.


8.2 Llwybrau 1, 2 a 3: Cyfleusterau gofal llai dwys gyda gwelyau

- Dylai'r holl gleifion ar y Llwybrau hyn fod â chynllun gwella clir, gyda mynediad at y cymorth therapiwtig/ail-alluogi angenrheidiol i'w gyflenwi.
- Mae'n hanfodol eu bod yn cael eu holrhain a'u hasesu ar ôl y cyfnod adfer hwn. Mae'n rhaid i becynnau gofal neu leoliad mwy hirdymor fod ar gael ar yr adeg iawn er mwyn sicrhau nad yw llwybrau'n cael eu rhwystro ar gyfer cleifion a fydd angen eu rhyddhau o'r ysbyty yn y dyfodol.

8.3 Ysbytai Cymunedol

Mae'n hanfodol cynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai cymunedol a chael gwared ar unrhyw oedi, trwy ddilyn yr un camau gweithredu ag mewn lleoliadau aciwt. Mae hyn yn cynnwys adolygiad dyddiol sy'n defnyddio pwyntiau procio tebyg:

Ffigur 5: Pwyntiau procio ar gyfer rowndiau bwrdd ar wardiau ysbytai cymunedol

- 
-  Ydy'r unigolyn hwn wedi gwella'n ddigonol fel y gellir darparu gofal iddo mewn lleoliad arall? *Meddylwch 'Cartref yn Gyntaf'*
 -  Beth sydd o blaid cadw'r unigolyn hwn ar ward ysbyty cymunedol, o wrthbwyso hynny gyda'r risg?
 -  Pam ddim gartref? Pam ddim heddiw?
 -  Os nad heddiw, pryd? (Dyddiad rhyddhau disgwyliedig)
 -  Beth ddylai ddigwydd nesaf? (Camau ar gyfer heddiw)

8.4 Lleoliad tymor byr ar gyfer pobl sydd angen goruchwyliaeth a gofal 24 awr

- Ar gyfer pobl sydd angen lleoliad gofal 24 awr, mae'n hanfodol bod cydlynnydd gofal (gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthynol, nyrs tîm rhyddhau neu nyrs GIP) yn cael eu haseinio ar eu cyfer a fydd yn adolygu eu hanghenion gofal a chymorth yn rheolaidd gan ddefnyddio'r un cwestiynau ag ar gyfer ysbytai cymunedol.
- Dylid trefnu rhyddhau cyn gynted â phosibl i'w cartref eu hunain a sicrhau bod pecynnau cymorth ar gael.

8.5 Adolygiad adsefydlu/ail-alluogi tymor byr yn y cartref

- Rhaid i Dimau Cymunedol adolygu anghenion pawb ar eu llwyth achosion yn ddyddiol.
- Bydd y tîm yn nodi'r holl bobl sydd wedi bod ar lwyth achosion am gyfnod estynedig a'r rhesymau pam.
- Trafodir yr achosion hyn gan ddefnyddio'r cwestiynau canlynol:
 - Beth yw nod cyfredol ein cymorth?
 - A ydym wedi bodloni'r nod hwn? Os nad ydym, beth sydd angen newid i'n galluogi ni i fodloni'r nod?
 - A ydym ni yn y sefyllfa orau i gefnogi'r angen hwn? A oes dewis amgen e.e. cefnogaeth trydydd sector neu raglen adsefydlu hunanreoledig o bell?
 - A yw'n bosibl i ni ryddhau'r unigolyn hwn yn ddiogel?
 - Cofnodir camau gweithredu o'r drafodaeth a chaiff camau gweithredu eu dilyn yn ddyddiol.

9. Cymorth cyllid

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu dadansoddiad cyflym o'r adnoddau sydd eu hangen i alluogi cymunedau iechedd a gofal cymdeithasol i ariannu cost y pecynnau cymorth iechedd a gofal cymdeithasol y tu allan i'r ysbyty newydd neu estynedig y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn.

Bydd manylion pellach yn cael eu rhannu gyda Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn fuan ac ni ddylai hyn greu oedi cyn gweithredu'r canllawiau yn y cyfamser.

10. Adrodd

10.1 Bydd safonau perfformiad cyfredol adroddiadau misol Oedi wrth Drosglwyddo Gofal yn cael eu hatal o 1 Ebrill 2020.

10.2 Bydd gweithdrefnau adrodd arferol ar gyfer Oedi wrth Drosglwyddo Gofal yn cael eu hatal yn ystod y cyfnod hwn. Yn lle hynny, yn ychwanegol at yr adroddiad dyddiol ar y sefyllfa a amlinellir isod, bydd diweddariadau byr yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn wythnosol, fel y gellir deall a mynd i'r afael â rhwystrau rhag gweithredu. Ni ddefnyddir y data hwn at ddibenion rheoli perfformiad.

Bydd y templed a'r canllawiau cyflwyno yn cael eu cylchredeg ar wahân.

10.3 Bydd gofyn i Fyrddau Iechyd adrodd ar y canlynol yn ystod y digwyddiad COVID-19:

- Cyfradd llenwi gwelyau mewn ysbytai
- Nifer y cleifion ar y rhestr rhyddhau ddyddiol
- Nifer a chanran y cleifion ar y rhestr rhyddhau sy'n cael eu rhyddhau'n llwyddiannus
- Y gwelyau sydd ar gael mewn lleoliadau cymunedol

11. Adnoddau a chymorth ychwanegol

11.1 Cydnabyddir y bydd gweithredu'r canllawiau hyn yn ymarferol yn codi cwestiynau pellach ac yn cynhyrchu dysgu sylweddol. Er mwyn cefnogi gweithredu, bydd Llywodraeth Cymru ac asiantaethau partner yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu diweddariadau rheolaidd a chyfle ar gyfer deialog, gan gynnwys Gweminarau, galwadau cenedlaethol a chanllawiau ychwanegol lle bo'u hangen.

Bydd manylion yn cael eu rhannu â'r partïon â diddordeb wrth i'r trefniadau gael eu gwneud ac mewn ymateb i'r materion sy'n codi.

11.2 Bydd allbynnau'r galwadau yn cael eu dosbarthu'n eang a byddant yn cynnwys storfa o Gwestiynau Cyffredin.

Canllawiau cymorth

Mae'r holl ganllawiau yn ymwneud â Covid-19 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ar gael yn: [https://llyw.cymru/gweithwyr-iechyd-proffesiynol-coronafeirws?_ga=2.260816973.1181427895.1586797211-](https://llyw.cymru/gweithwyr-iechyd-proffesiynol-coronafeirws?_ga=2.260816973.1181427895.1586797211-881363834.1547048528)

[881363834.1547048528](https://llyw.cymru/gweithwyr-iechyd-proffesiynol-coronafeirws?_ga=2.260816973.1181427895.1586797211-881363834.1547048528)

<https://www.adss.cymru/cy/blog/post/covid19-commissioners>

<https://www.adss.cymru/cy/category/coronavirus-covid-19>

https://improvement.nhs.uk/documents/849/ECIP_RIG_Trusted_assessors_March2017.pdf

https://www.adass.org.uk/media/6030/developing-trusted-assessment-schemes_essential-elements-280717.pdf

Atodiad A:

Model Rhyddhau i Adfer ac Asesu (Cymru)

			
D2RA Llwybr 1: Asesiad Drws Blaen Ydy'r unigolyn hwn yn addas i'w dderbyn i'r ysbyty? Asesiad trylwyr wrth ddrws blaen yr ysbyty Asesu, trin a chefnogi gartref	D2RA Llwybr 2: Cartref yn gyntaf! Pam ddim gartref? Pam ddim heddiw? Triniaeth fel claf mewnol wedi'i gwblhau Y llwybr diofyn ar gyfer unrhyw un a all fod angen cefnogaeth newydd neu ragor o gefnogaeth yn y cartref, neu lleoliad mewn cartref gofal	D2RA Llwybr 3: Gwely Gofal Dwys A ydym yn darparu'r amodau cywir ar gyfer sicrhau'r adferiad a'r annibyniaeth gorau? Dim ond i'w ystyried os yw Llwybrau 1 a 2 yn anaddas ar gyfer yr unigolyn hwn h.y. mae ganddynt ddibyniaeth uchel ac anghenion dros nos na ellir eu diwallu gyda gofal nos tymor byr	D2RA Llwybr 4: Cartref Gofal Cyfredol Darparu'r llwybr lleiaf aflonyddgar a sicrhau'r adferiad gorau posibl Fel Llwybr 2, gydag ystyriaeth arbennig i gyflenwi cefnogaeth yn lleoliad cartref gofal cyfredol unigolyn Rhaid i asesiad ar gyfer lleoliad newydd ddilyn Llwybr 2 neu 3

Proses gweithredu'r Model Rhyddhau i Adfer ac Asesu

Cam 1: Penderfyniad i ryddhau

- Adolygiad ar sail glinigol o'r holl gleifion yn ystod rownd fwrdd yn gynnar yn y bore. Bernir bod unrhyw glaf sy'n bodloni'r meini prawf clinigol diwygiedig yn addas i'w ryddhau.
- O leiaf ddau adolygiad dyddiol o'r holl gleifion mewn gwelyau aciwt (dyddiol mewn ysbytai cymunedol a gwelyau gofal llai dwys eraill) i gytuno ar unrhyw gleifion nad oes angen iddynt fod yn yr ysbyty ac y gellir felly eu rhyddhau
- Uwch staff clinigol i fod ar gael i gefnogi staff ward a staff rhyddhau gyda threfniadau cymryd risg a chyngor clinigol priodol.
- Bydd yr holl gleifion nad oes angen iddynt fod yn yr ysbyty ac y gellir eu rhyddhau yn cael eu hychwanegu i'r rhestr ryddhau a llwybr rhyddhau yn cael ei ddosrannu ar eu cyfer.
- Rhyddhau i gartref y claf (Llwybrau 1, 2 a 4) – dyna'r drefn ddiofyn

- 🏠 Rheolir y rhestr ryddhau gan y bwrdd iechyd, mewn cydweithrediad â phartneriaid gofal cymdeithasol.

Cam 2: Cyflawni'r trefniadau rhyddhau

- 🏠 Wrth benderfynu rhyddhau, dylid hysbysu'r claf a'i deulu neu ei ofalwr, ac unrhyw weithwyr tai â chymorth ffurfiol a throsglwyddo'r ffurflen berthnasol (Atodiad C).
- 🏠 Dylai staff iechyd, gofal cymdeithasol a lletya gydweithio i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon.
- 🏠 Bydd timau rhyddhau ysbyty yn arwain wrth drefnu rhyddhau'r cleifion hynny sydd angen cefnogaeth gan gynlluniau rhyddhau trydydd sector.
- 🏠 Bydd y timau cymunedol lleol yn arwain wrth gydlynu trefniadau ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau ar unrhyw un o'r Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu, yn cynnwys dyrannu eu cydlynnydd gofal fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr.
- 🏠 Bydd y cydlynnydd gofal yn gyfrifol am:
 - Hysbysu unigolion a'u teuluoedd yn llawn ynghylch y camau nesaf
 - Trefnu cludiant adref i'r claf, ble bo angen hynny
 - Sicrhau bod cymorth 'setlo i mewn' yn cael ei ddarparu pan fo'i angen.
- 🏠 Rhaid trosglwyddo pob claf i ardal/lolfa ryddhau benodedig o fewn awr i'r penderfyniad i ryddhau claf.
- 🏠 Pan fo hynny'n berthnasol i'r claf, cynhwysir canlyniadau prawf COVID-19 yn y ddogfennaeth ar gyfer yr unigolyn wrth iddo gael ei ryddhau. Os nad yw canlyniadau'n barod ar adeg rhyddhau, rhaid i weithiwr proffesiynol enwebedig e.e. cydlynnydd rhyddhau fod yn gyfrifol am eu hanfon ymlaen cyn gynted ag sy'n bosibl.

Cam 3: Adfer ac Asesiad Ôl-Ysbyty

-  Dylai asesiadau cartref wedi'u cydlynu rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys cefnogaeth offer ac ail-alluogi ddigwydd ar y dydd mae'r claf yn cael ei ryddhau, yn ddelfrydol, gan ddefnyddio dull aseswr dibynadwy.
-  Bydd y cydlynnydd gofal yn gwneud y trefniadau i sicrhau bod y gwasanaethau a'r offer yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal uniongyrchol yr unigolyn ac i adolygu ac asesu ar gyfer gofal parhaus os bydd angen hynny.
-  Bydd y ganolfan gwasanaeth cymunedol lleol/pwynt mynediad unigol yn gweithredu fel pwynt cydweithredu rhyngasiantaethol i sicrhau bod y staff a'r isadeiledd ar waith i gefnogi trefniadau o'r fath. Er mwyn lleihau'r risgiau a all godi wrth i glaf gael cysylltiadau niferus, dylai hyn geisio cynnwys gweithredu trefniadau dwyochrog ar gyfer tasgau dirprwyedig rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol. Er mwyn lleihau'r risgiau a all godi wrth i glaf gael cysylltiadau niferus, ceisio gweithredu trefniadau dwyochrog ar gyfer tasgau wedi'u dirprwyo rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol.
-  Bydd y ganolfan yn defnyddio'r holl adnoddau lleol sydd ar gael, gan gynnwys staff gwirfoddol, cymunedol a gofal cymdeithasol nad ydynt bellach yn cynnal asesiadau mewn ysbytai aciwt.

Ystyriaethau pwysig ar gyfer yr holl lwybrau:

- Mae dyletswyddau o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn dal i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod hwn. Os amheuir nad oes gan unigolyn y galluedd meddyliol perthnasol i wneud y penderfyniadau am ei ofal a'i driniaeth barhaus, dylid cynnal asesiad galluedd cyn gwneud penderfyniad ynghylch ei ryddhau. Pan asesir nad oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol perthnasol a bod angen gwneud penderfyniad, yna rhaid gwneud penderfyniad budd pennaf ar gyfer gofal parhaus yr unigolyn yn unol â'r prosesau arferol.
- Os yw'r trefniadau arfaethedig yn gyfystyr ag amddifadu rhywun o'i ryddid, mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid mewn cartrefi gofal a gorchmynion gan y Llys Gwarchod ar gyfer trefniadau cymunedol yn dal i fod yn berthnasol ond ni ddylent oedi rhyddhau.

Mae canllawiau pellach yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a chaiff gwybodaeth wedi'i diweddarau ei darparu.

Mae cysylltiadau allweddol ar gyfer cael gafael ar gymorth yn cynnwys:

- **[Llinell Gymorth C.A.L.L.](#)**
Llinell gymorth iechyd meddwl bwrpasol i Gymru sy'n gallu darparu cymorth gwranddo a chyfrinachol i chi, a'ch helpu i gysylltu â chymorth a allai fod ar gael yn eich ardal leol. Galwch 0800 132 737 neu tecstiwch 'help' i 81066.
- **[Llinell Wybodaeth Mind Cymru](#)**
Gwybodaeth am fathau o broblemau iechyd meddwl, ble i gael help, meddyginiaeth, triniaethau amgen ac eiriolaeth. Ffoniwch 0300 123 3393, e-bostiwch info@mind.org.uk neu tecstiwch 86463.
- **[Samariaid Cymru](#)**
Yn cynnig lle diogel i chi sgwrsio unrhyw bryd y dymunwch, yn eich ffordd eich hun - am beth bynnag sy'n dân ar eich croen. Galwch 116 123 yn rhad ac am ddim neu e-bostiwch jo@samaritans.org
- **[MEIC](#)**
Cefnogaeth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed, ar agor rhwng 8am a hanner nos, 7 diwrnod yr wythnos. Gallwch gysylltu â nhw am ddim dros y ffôn ar 080880 23456, ac mae gwasanaeth negeseuon testun a negeseua gwib ar gael ar eu gwefan
- Ar gyfer cleifion y nodwyd eu bod yn nyddiau neu wythnosau olaf eu bywyd, bydd timau cymunedol yn gweithio gyda thimau Gofal Lliniarol arbenigol i gydlynw a hwyluso rhyddhau cyflym i'r cartref neu hosbis.

Atodiad B: Cynnal prosesau penderfynu o ansawdd mewn lleoliadau aciwt

Dylid adolygu pob claf ar ward gyffredinol yn ystod rownd bwrdd ddwywaith y dydd i benderfynu ar y canlynol. Os yw'r ateb i bob cwestiwn yn 'na', dylid ystyried rhyddhau'r claf i leoliad llai aciwt.

Angen gofal Uned Therapi Dwys/Uned Dibyniaeth Fawr

Angen therapi ocsigen/cymorth anadlu anfewnwithiol

Angen hylifau mewnwythiennol

NEWS2 > 3

(angen barn glinigol mewn cleifion sydd â ffibriliad atrïaidd a/neu glefyd anadlol cronig)

Lefel lai o ymwybyddiaeth lle mae adferiad yn realistig

Nam swyddogaethol aciwt
y tu hwnt i ddarpariaeth gofal cartref/cymunedol

Oriau olaf bywyd

Angen meddyginiaeth fewnwythiennol
fwy na dwywaith y dydd (yn cynnwys analgesia)

Wedi cael llawdriniaeth ar ran isaf y goes o fewn 48 awr

Wedi cael llawdriniaeth thoracs-abdomen/pelfig o fewn 72 awr

O fewn 24 awr i weithdrefn ymyrrol
(gyda risg cysylltiedig o ddirywiad sy'n bygwth bywyd aciwt)

Bydd eithriadau clinigol yn digwydd ond rhaid eu cyfiawnhau. Bydd cofnodi'r rhesymeg yn cynorthwyo adolygiad ystyrlon a phrydlon.

Cwestiynau adolygu/herio i'r tîm clinigol

- Ydy'r claf wedi'i optimeiddio'n feddygol? – (peidiwch â defnyddio 'meddygol iach' neu 'yn ôl i'r gwaelodlin').
- Pa reolaeth y gellir ei pharhau fel triniaeth ddydd – e.e. triniaeth methiant y galon?
- Pa reolaeth y gellir ei pharhau y tu allan i'r ysbyty gyda nyrsys cymunedol/ardal e.e. gwrthfotigau mewnwythiennol?
- Cleifion gyda sgoriau NEWS isel (0-4) – a yw'n bosibl eu rhyddhau gyda dilyniant addas?
 - Os nad yn sgorio 3 ar unrhyw un o'r paramedrau e.e. – cyfradd curiad y galon dros 130
 - Os gellir bodloni eu hanghenion ocsigen mewn cyfleuster gofal llai dwys
 - Sefydlog a heb fod angen arsylwi arnynt yn fynych bob 4 awr neu lai
 - Heb fod angen unrhyw ofal meddygol/nyrsio ar ôl 8pm
 - Cleifion yn aros am ganlyniadau – a ydynt yn gallu dod yn ôl, neu a oes modd eu hysbysu dros y ffôn?
 - Ail-dynnu gwaed – a oes modd gwneud hynny ar ôl rhyddhau'r claf mewn lleoliad amgen?
 - Cleifion sy'n aros am ymchwiliadau – a allant fynd adref a dod yn ôl fel cleifion allanol gyda'r un cyfnod aros â chleifion mewnol?

Rhyddhau ar sail meini prawf:

- A all nyrs neu weithiwr proffesiynol gofal iechyd cysylltiedig ryddhau heb adolygiad pellach os yw'r meini prawf wedi'u nodi'n dda?
- A all meddyg iau ryddhau heb adolygiad pellach os yw'r meini prawf wedi'u dogfennu'n glir?
- Sut mae modd i ni gysylltu â'r ymgynghorydd yn uniongyrchol os yw'r meini prawf o fewn dim i gael eu bodloni a bod angen eglurhad pellach?

Atodiad C: Taflenni dewis rhyddhau cleifion

Cydnabyddir y gall materion o ddewis ac ymgysylltu â chleifion yn aml fod yn rhwystrau sylweddol i ryddhau o'r ysbyty lle mae anghenion gofal cymdeithasol parhaus ar ôl iddynt gael eu rhyddhau (yn enwedig os ydynt yn symud i gartref preswyl neu gartref nyrsio). Yn ystod yr ymateb i COVID-19, bydd protocolau dewis ar gyfer y mater penodol hwn yn cael eu hatal dros dro. Cynhyrchwyd y taflenni canlynol i gefnogi cyfathrebu'r neges hon.

- Taflen A – i'w dosbarthu a'i hegluro i bob claf wrth iddynt gael eu derbyn i ysbyty
- Taflen B – i'w dosbarthu a'i hegluro i bob claf cyn iddynt gael eu rhyddhau, wedi'i rhannu'n ddwy daflen:
 - Taflen B1 i gleifion sy'n cael eu rhyddhau i'w preswylfan arferol
 - Taflen B2 i gleifion sy'n symud i ofal ychwanegol â gwelyau nad ydynt yn aciwt

Taflen dewis rhyddhau cleifion A – wrth gael eu derbyn i'r ysbyty



Gwybodaeth am gael eich rhyddhau o'r ysbyty

Mae'n bwysig bod ein hysbytai yn barod i ofalu ar ôl unigolion sydd wedi dal y coronafeirws (COVID-19) ac sydd angen gofal mewn ysbyty. Oherwydd y pwysau hwn, pan fydd y tîm gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch yn penderfynu nad oes angen ichi aros yn yr ysbyty rhagor, byddwch yn cael eich rhyddhau. Ni fyddwch chi'n cael dewis pryd y byddwch chi'n cael eich rhyddhau, ond mae sicrhau bod unigolion yn cael eu rhyddhau i le diogel a phriodol yn flaenoriaeth bob amser.

Yn y rhan fwyaf o achosion, i'ch cartref y byddwch yn cael eich rhyddhau. Efallai y bydd angen mwy o gymorth arnoch, er enghraifft gyda'ch anghenion gofal neu i siopa.

Os bydd angen gofal mwy cymhleth y tu allan i'r ysbyty arnoch chi, gallai hyn fod mewn gwely arall yn y gymuned. Er enghraifft, mewn cartref nyrsio preswyl.

Bydd eich anghenion a'r trefniadau ar gyfer eich rhyddhau o'r ysbyty yn cael eu trafod â chi.

Beth yw'r coronafeirws?

Mae COVID-19 yn salwch newydd sy'n gallu effeithio ar yr ysgyfaint a'r llwybrau anadlu. Mae'n cael ei achosi gan feirws o'r enw y coronafeirws.

Nid oes unrhyw driniaeth benodol ar hyn o bryd. Bydd rhaid i rai unigolion sy'n dal y salwch gael eu derbyn i'r ysbyty.

Gallwch gael gwybod rhagor am y coronafeirws a'r ffyrdd gorau o sicrhau nad yw'n cael ei ledaenu drwy fynd i www.nhs.co.uk/coronavirus

Taflen dewis rhyddhau cleifion B1 – i gleifion sy'n cael eu rhyddhau i'w preswylfan arferol



Cael eich rhyddhau o'r ysbyty: mynd adref

Mae'r daflen hon yn egluro pam eich bod yn cael eich rhyddhau o'r ysbyty a beth i'w ddisgwyl wedi hynny.

Pam ydw i'n cael fy rhyddhau o'r ysbyty?

Rydych chi'n cael eich rhyddhau o'r ysbyty oherwydd bod eich tîm iechyd wedi cytuno y gallwch chi fynd adref nawr.

Pam na allaf i aros yn yr ysbyty?

Mae'r system iechyd yn brysur yn helpu unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan y coronafeirws (COVID-19). Mae hwn yn salwch newydd sy'n gallu effeithio ar yr ysgyfaint a'r llwybrau anadlu. Bydd rhaid i rai unigolion sy'n dal y salwch gael eu derbyn i'r ysbyty. Mae'n bwysig bod ein hysbytai yn barod i edrych ar ôl yr unigolion hynny sydd angen y gofal hwn yn yr ysbyty.

O ganlyniad, ni fyddwch chi'n cael dewis pryd y byddwch yn cael eich rhyddhau o'r ysbyty. Ni fyddwch chi'n gallu aros yn yr ysbyty os byddwch chi'n dewis peidio â derbyn y gofal sy'n cael ei gynniig ichi.

Beth allaf i ei ddisgwyl?

Ein blaenoriaeth yw sicrhau eich bod yn cael eich rhyddhau yn ddiogel o'r ysbyty i'r lle mwyaf priodol sydd ar gael.

Bydd y trefniadau ar gyfer eich rhyddhau a'ch cludo o'r ysbyty yn cael eu trafod rhyngoch chi (ac aelod o'r teulu, ffrind neu ofalwr os hoffech chi) a'ch tîm iechyd. Os bydd angen gofal a chymorth arnoch ar ôl ichi gyrraedd gartref, bydd hynny yn cael ei drefnu hefyd.

Bydd unrhyw ofal yn cael ei ddarparu am ddim am gyfnod o amser i'ch helpu i wella. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd rhaid ichi gyfrannu tuag at gost eich gofal.

Â phwy allaf i gysylltu?

Ar ôl ichi gael eich rhyddhau, os bydd gennych bryderon neu os byddwch chi am siarad â rhywun am eich gofal gallwch gysylltu â <insert locally agreed details e.g. team name & contact number>

I gael gwybod rhagor am y coronafeirws (COVID-19) a chael gwybod sut i osgoi ei ddal neu ei ledaenu, ewch i www.nhs.uk/coronavirus

Taflen dewis rhyddhau cleifion B2 – i gleifion sy'n symud i ofal ychwanegol â gwelyau nad ydynt yn aciwt



Cael eich rhyddhau o'r ysbyty: lle gofal arall

Mae'r daflen hon yn egluro pam rydych chi'n cael eich rhyddhau o'r ysbyty a beth i'w ddisgwyl wedi hynny.

Pam ydw i'n cael fy rhyddhau o'r ysbyty?

Rydych chi'n cael eich rhyddhau oherwydd bod eich tîm gofal iechyd wedi cytuno y gallwch chi nawr fynd i leoliad gofal arall i barhau i wella.

Pam na allaf i aros yn yr ysbyty?

Mae'r system iechyd yn brysur yn helpu cleifion sydd wedi cael eu heffeithio gan y coronafeirws (COVID-19). Mae hwn yn salwch newydd sy'n gallu effeithio ar yr ysgyfaint a'r llwybrau anadlu. Bydd rhaid i rai unigolion sy'n dal y salwch gael eu derbyn i'r ysbyty. Mae'n bwysig bod ein hysbytai yn barod i edrych ar ôl yr unigolion hynny sydd angen y gofal hwn yn yr ysbyty.

O ganlyniad, ni fyddwch chi'n cael dewis pryd y byddwch yn cael eich rhyddhau o'r ysbyty. Ni fyddwch chi'n gallu aros yn yr ysbyty os byddwch chi'n dewis peidio â derbyn y gofal sy'n cael ei gynnig ichi.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau eich bod yn cael eich rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel i'r lle mwyaf priodol sydd ar gael.

Beth allaf i ei ddisgwyl?

Bydd y trefniadau ar gyfer eich rhyddhau a'ch cludo yn cael eu trafod â chi (a chydag aelod o'r teulu, ffrind neu ofalwr os hoffech chi). Byddwch yn cael eich rhyddhau gyda'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen amoch, i wely yn y gymuned.

Bydd y gofal yn cael ei ddarparu am ddim am gyfnod o amser i'ch helpu i wella. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd rhaid ichi gyfrannu tuag at gost eich gofal.

Mae'n bosibl y byddwch chi'n cael eich symud mwy nag unwaith ar ôl ichi gael eich rhyddhau. Bydd hyn oherwydd ein bod yn ceisio dod o hyd i'r lle gorau ichi gael gofal ar gyfer y tymor hir. Mae eich tîm iechyd yma i ateb eich cwestiynau.

Â phwy allaf i gysylltu?

Ar ôl ichi gael eich rhyddhau, os bydd gennych bryderon neu os byddwch chi am siarad â rhywun am eich gofal gallwch gysylltu â <insert locally agreed details e.g. team name & contact number>

I gael gwybod rhagor am y coronafeirws (COVID-19) a chael gwybod sut i osgoi ei ddal neu ei ledaenu, ewch i www.nhs.uk/coronavirus

Atodiad D: Digartrefedd

- Mae angen adlewyrchu gofynion y digartref a phobl sy'n byw ar y stryd hefyd mewn unrhyw fframwaith lleol i gefnogi argyfwng COVID-19 y Llywodraeth.
- Mae angen cynnal a gwella arferion sydd wedi'u datblygu mewn systemau i gefnogi pobl ddigartref i adlewyrchu'r angen i gefnogi anghenion y rhai sydd heb gartref ac sy'n byw ar y stryd. Mae eisoes yn hysbys fod gan y grŵp hwn lefel uchel o farwolaethau, ac anghenion cymorth yn cynnwys salwch meddwl a chamddefnyddio sylweddau a allai fod yn rhwystr i hunanynysu.
- Mae gan Fyrddau lechyd ddyletswydd statudol i atgyfeirio pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref at awdurdod tai lleol. Mae'r ddyletswydd statudol hon yn parhau mewn grym.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân: 'Y coronafeirws (COVID-19): cymorth gan awdurdodau lleol ar gyfer y rheini sy'n cysgu allan'.

<https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-awdurdodau-lleol-gefnogir-rheini-syn-cysgu-allan>

Atodiad E: Teclyn Capasiti Gofal a Chymorth

Fel rhan o'r cynllunio rhyddhau cyfredol, mae'n hanfodol deall cyfradd llenwi gwelyau a gwelyau gwag yn y gymuned.

Mae'r Teclyn Capasiti Gofal a Chymorth wedi ei ddatblygu gan Data Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

- Teclyn ar y we yw hwn sy'n cynnig y cyfle i olrhain capasiti gwelyau a gwelyau gwag er mwyn cefnogi cynllunio gwelyau a rhyddhau ar draws y system. Bydd y Teclyn ar waith o 26 Mawrth 2020.
- Mae'r Teclyn yn cwmpasu'r holl gartrefi gofal i oedolion yng Nghymru, yn cynnwys cartrefi gofal i bobl ag anghenion preswyl, nyrsio, iechyd meddwl ac anabledd dysgu. Mae bwriad i ymestyn swyddogaeth y Teclyn i gynnwys darpariaeth gofal cartref yn y dyfodol, ond nid yw hyn ar gael ar hyn o bryd.
- Nid yw'n fwriad iddo ddisodli systemau gwybodaeth cyfredol sydd eisoes ar waith mewn rhai lleoliadau ar gyfer olrhain gwelyau/ystafelloedd gwag. [Yn hytrach, dylai weithredu yn gyfochrog.](#)
- Gofynnir i ddarparwyr ddefnyddio gwefan Dewis i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf (mor agos i amser real ag sy'n bosibl) ynghylch:
 - Nifer y gwelyau gwag
 - Statws cyfredol, h.y. ar gau / ar agor i dderbyniadau
- I ddechrau, bydd arweinwyr rhyddhau enwebedig ar gyfer pob ardal bwrdd iechyd yn cael mynediad i Ddangosfwrdd y Teclyn Capasiti Gofal a Chymorth.

Os am ragor o wybodaeth ynghylch y Teclyn, e-bostiwch CareandSupportCapacityTool@gov.wales

Atodiad F: Gofal Iechyd Parhaus y GIG a Chynllunio COVID-19

Mae Gofal Iechyd Parhaus y GIG (GIP), y cyfeirir ato trwy gydol y ddogfen hon, yn cyfeirio at unigolion 18 oed a hŷn.

Ni fydd angen asesiadau GIP ar gyfer unigolion ar y Llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu ac mewn lleoliadau cymunedol tan ddiwedd cyfnod argyfwng COVID-19.

Roedd Gofal Iechyd Parhaus y GIG, y fframwaith gweithredu cenedlaethol yng Nghymru arfaethedig, i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill ond, yn sgil y sefyllfa bresennol, mae'r amserlen gyhoeddi yn cael ei hadolygu.

Fodd bynnag, mae Adran 4 y Fframwaith arfaethedig, sy'n nodi'r asesiadau ar gyfer cymhwysedd GIP yn ystod Pandemigau ac Argyfyngau Eraill, yn cael eu gweithredu ar unwaith, fel y nodir isod:

Pandemigau ac Argyfyngau Eraill

- Gwerthfawrogi'r byddai'n anodd cwblhau asesiad GIP llawn mewn ysbyty yn ystod argyfwng, fel pandemig fflw. Gan fod GIP yn asesu anghenion hirdymor, ni ddylid rhoi blaenoriaeth i wneud penderfyniadau ynghylch cymhwysedd i gael GIP yn y sefyllfaoedd hyn. Yn hytrach, dylid blaenoriaethu diogelwch y claf a sicrhau ei fod yn cael y gofal sydd ei angen arno.
- Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylai Byrddau Iechyd Lleol allu dewis peidio â chynnal asesiad GIP nes i'r argyfwng ddod i ben. Diben hyn yw peidio â thynnu dyletswydd gofal dros y claf yn ôl. Bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol o hyd am drefnu, ariannu a darparu gofal iddo. Gall hyn ddigwydd mewn ffyrdd amrywiol ac nid yw'n golygu y bydd yn aros yn yr ysbyty; gall gael ei ryddhau i gartref gofal neu nyrsgo gyda chymorth priodol neu gall gael ei ryddhau i'w gartref ei hun gyda chymorth priodol. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn golygu sefyllfa sy'n gymharol debyg i sefyllfa lle asesir bod unigolyn yn gymwys i gael GIP ac y trefnir pecyn gofal ar ei gyfer.

- Nid oes unrhyw beth i atal Awdurdodau Lleol a thimau'r GIG rhag cydweithio er mwyn rhyddhau claf i'w gartref ei hun, fel y bo angen. Yn ystod yr ymateb i bandemig, neu mewn canllawiau ymlaen llaw, dylai fod yn ofynnol i dimau lleol ddefnyddio eu 'trefniadau rhyddhau i asesu' er mwyn lleihau'r pwysau ar welyau ysbyty lle bo hynny'n bosibl. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol os nad yw person yn dymuno i'r GIG ddarparu ei ofal oherwydd ei fod yn dymuno cadw taliadau uniongyrchol. Mewn achosion o'r fath, dylai'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol weithio'n gyd-gynhyrchiol gyda'r unigolyn i sicrhau ei fod yn parhau i fod â llais a rheolaeth dros ei ofal. Dylai'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol ystyried trefniadau amgen fel pecynnau gofal ar y cyd neu gronfeydd cyfun i ddiwallu anghenion yr unigolyn yn y ffordd fwyaf priodol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn oedi rhyddhau o'r ysbyty.
- Gall unigolion barhau i wneud ceisiadau am adolygiad o benderfyniad ar gymhwysedd (h.y. Datrysiaid Lleol ac Adolygiad Annibynnol) ond bydd yr amserlen ar gyfer ymateb yn cael ei llacio.
- Disgwylir y bydd Byrddau Iechyd Lleol yn cymryd golwg gymesur ar gynnal adolygiadau tri mis a deuddeg mis i sicrhau bod pecyn gofal yr unigolyn yn diwallu ei anghenion ac i sicrhau bod unrhyw bryderon a nodir yn cael sylw fel sy'n briodol.
- Yn ystod cyfnod argyfwng COVID-19, ni fydd Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei ddwyn i gyfrif ar Safonau Sicrwydd GIP nac ar derfynau amser ar gyfer delio â cheisiadau unigol GIP am adolygiadau o benderfyniadau cymhwysedd.
- Dim ond yn ystod y cyfnod argyfwng COVID-19 y mae'r mesurau hyn a nodwyd ar gyfer GIP y GIG ar waith.
- Mae angen i systemau lleol sicrhau bod ganddynt ddull o fonitro camau a gymerwyd yn ystod mesurau brys COVID-19, er enghraifft defnyddio Rhestr Wirio GIP y GIG, fel bod unigolion yn cael eu hasesu'n gywir unwaith y bydd y drefn arferol yn ailddechrau.

Goblygiadau Mabwysiadu Mesurau Brys COVID-19 i Ofal Iechyd Parhaus y GIG

- Os bydd asesiadau llawn o gymhwysedd GIP yn cael eu gohirio, bydd ôl-groniad yn cael ei greu a fydd yn effeithio ar lwyth gwaith i staff y GIG ac Awdurdodau Lleol yn y dyfodol. Bydd yr un peth yn berthnasol gyda cheisiadau unigol am adolygiad o benderfyniadau cymhwysedd (h.y. Datrysiad Lleol ac Adolygiad Annibynnol).
- Bydd angen datblygu cynllun trin i alluogi'r system i 'normaleiddio' yn dilyn cyfnod argyfwng COVID-19. Er enghraifft, cwblhau'r rhestr wirio GIP cyn trosglwyddo, ar gyfer cleifion sy'n ymddangos yn debygol o fod angen asesiad llawn ar gyfer cymhwysedd.
- Mae'n bosibl y bydd effaith ariannol ar gyllid Byrddau Iechyd o ganlyniad i drefniadau rhyddhau i asesu fel rhan o'r llwybr rhyddhau o'r ysbyty am gyfnodau hirach na'r arfer. Bydd y dadansoddiad cyflym y cyfeirir ato yn Adran 9 yn cynnwys yr ystyriaeth hon.
- Pan fydd gofal cymdeithasol wedi'i ddarparu am ddim ar y pwynt cyflenwi ar gyfer y cyfnod brys, bydd angen rheoli disgwyliadau unigolion sy'n derbyn pecynnau gofal wedi'u hariannu na fyddant efallai'n parhau i gael eu hariannu ar ôl cyfnod argyfwng COVID-19, gan y bydd angen i rai unigolion ddychwelyd i drefniadau cyllido arferol, a fydd yn golygu y bydd yn rhaid iddynt efallai gyfrannu at eu gofal, neu ariannu eu gofal yn llawn.
- Er bod GIP y GIG i bob pwrpas yn 'ffrwd ariannu', mae'n ofynnol i'r clinigwyr sy'n ymwneud ag asesu ac adolygu GIP y GIG asesu anghenion penodol unigolion bregus iawn a chomisiynu'r gofal perthnasol. Felly, mae'n dal yn bwysig sicrhau bod pecynnau gofal yn cael eu comisiynu sy'n diwallu anghenion yr unigolion hyn.

Atodiad G: Canllawiau Trawsffiniol Offer Cymunedol

Gwasanaethau Offer Cymunedol: Canllawiau Trawsffiniol (Cymru)

Mae'r canllaw hwn yn eiddo i, ac yn cael ei gymeradwyo gan,
Fforwm Cyngori Therapi Galwedigaethol Cymru Gyfan (OTAF)

Canllaw wedi'i gymeradwyo gan OTAF: 15/11/18

Dyddiad adolygu: 15/11/20

Cyflwyniad

Diben y canllaw hwn yw egluro a sicrhau prosesau tryloyw ar gyfer mynediad teg at offer cymunedol i bob dinesydd, y rhai sy'n asesu anghenion ac yn argymhell offer a'r darparwr Offer Cymunedol. Mae'n disgrifio pa bartneriaeth a gwasanaeth offer cymunedol ddylai ddarparu, a thrwy hynny ariannu, offer i unigolion. Mater i'r bartneriaeth yw'r trefniadau cyllido oddi mewn i'r bartneriaeth.

Mae'r canllaw yn ceisio bod o gymorth i bawb trwy osgoi gwastraffu amser yn ceisio penderfynu pwy ddylai gyflenwi offer.

Dylai'r canllaw gael ei ddefnyddio fel sail i'r negodi rhwng Byrddau Iechyd unigol a'r Awdurdodau Lleol hynny y tu allan i'w ffiniau y mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi eu bod angen dychwelyd cleifion iddynt yn aml, neu yn achos plant neu oedolion sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pan maen nhw'n byw y tu allan i'w ffiniau neu lle mae cyd-breswylfa ar draws ffiniau.

Mae'r canllawiau'n berthnasol i offer a ddarperir gan y partneriaethau gwasanaeth offer cymunedol lleol. Pan fyddant yn darparu offer ar gyfer gofal parhaus, mae'r protocol yn berthnasol. Noder. Gall offer gofal parhaus fod y tu allan i'r gyllideb gyfun ond wedi'i ariannu gan y Bwrdd Iechyd Lleol a'i reoli gan y gwasanaeth offer cymunedol. Gellir ei gynnwys o fewn y gyllideb gyfun a'i reoli gan y gwasanaeth offer cymunedol.

Lle mae offer gofal parhaus a/neu offer pediatrig y tu allan i'r gyllideb gyfun a'r gwasanaeth offer cymunedol, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud ei drefniadau ei hun ar gyfer cyflenwi a chynnal a chadw offer cymunedol. Argymhellir yn gryf y dylid dod ag offer gofal parhaus ac offer pediatrig o fewn cylch gwaith y gwasanaeth offer cymunedol i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n broffesiynol. Gellir defnyddio amcangyfrifon i gynnwys cyllid ar gyfer yr offer hwn o fewn y gyllideb gyfun.

Nid yw'r canllaw hwn yn cwmpasu cadeiriau olwyn nac unrhyw offer a gyflenwir gan Dîm Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Egwyddorion Allweddol

1. Mae diogelwch a llesiant unigolion yn hollbwysig.
2. Dylai offer cymunedol hybu annibyniaeth yr unigolyn.
3. Dylai gwasanaethau offer cymunedol fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn yr ystyr eu bod yn cynnig ymateb hyblyg i angen, yn seiliedig ar flaenoriaethau a thargedau perfformiad pob awdurdod lleol.
4. Mae gan ddefnyddwyr ddealltwriaeth o'r heriau sy'n eu hwynebu o ddydd i ddydd a rhaid iddynt fod yn rhan o'r asesiad a'r dewis o offer.
5. Mae penderfyniadau clinigol amserol a chlir yn sylfaen i'r offer a ddarperir.

Deilliannau a Fwriadwyd

- Egluro'r broses asesu a'r cyfrifoldeb am ddarparu offer
- Osgoi oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty – a hybu llif cleifion
- Atal derbyniadau i'r ysbyty
- Galluogi staff i nodi'r storfa offer gywir i archebu offer ohoni
- Osgoi dryswch i unigolion a pherthnasau
- Ystyried costau offer ar ddarpariaeth gwasanaeth

Trefniadau gweithredol i gefnogi egwyddorion.

1. Bydd Gwasanaethau Offer Cymunedol yn gweithredu yn unol â ffiniau daearyddol Awdurdod Lleol, nid yn unol â chofrestri unigolion â meddygon teulu. Dylai fod yn gymharol syml sefydlu sir breswyl yr unigolyn a'r sir y mae'n talu treth gyngor ynddi. Bydd y bartneriaeth offer cymunedol yn ariannu offer ar gyfer preswylwyr oddi mewn i ffiniau'r Awdurdod Lleol neu awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn y bartneriaeth.
2. Pan fydd unigolyn yn cael ei ryddhau i gartref perthynas y tu allan i'r Awdurdod Lleol lle mae'n preswyl fel arfer, dylai gwasanaeth cymunedol lleol awdurdod y perthynas ddarparu'r offer hanfodol sy'n ofynnol. Mae hyn yn gwneud synnwyr yn y tymor byr ac os bydd y trefniant yn un tymor hir, daw'n gartref cyffredin i'r defnyddiwr. Os bydd yr unigolyn yn trosglwyddo i awdurdod gwahanol, yna disgwylir y bydd yr unigolyn yn cysylltu â'r Awdurdod Lleol presennol ac Awdurdod Lleol y dyfodol i sicrhau bod offer yn addas.
3. Os yw therapydd nad yw'n gyflogedig gan yr awdurdod preswyl yn archebu offer ar gyfer oedolion neu blant, dylai'r broses gael ei chwblhau gan Ragnodwyr Dibynadwy sy'n staff cyflogedig i'r Awdurdod Iechyd neu'r Awdurdod Lleol sy'n rhyddhau. Cyfrifoldeb pob Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol yw enwebu'r swyddi hyn a sicrhau eu bod yn cael eu diweddarw wrth i ddeiliaid y swyddi newid.

Beth yw Rhagnodydd Dibynadwy?

Bydd Rhagnodydd Dibynadwy yn aelod cofrestredig o staff a gyflogir gan yr Awdurdod Iechyd neu Awdurdod Lleol sy'n rhyddhau, sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau clinigol i gynnal asesiadau a/neu gymeradwyo'r offer sy'n ofynnol. Byddant yn gwbl ymwybodol o'u hatebolrwydd gan sicrhau bod yr offer a archebir yn unol â meini prawf cymhwysedd offer ardal leol – cyfeiriwch at Atodiadau 1 a 2 (i'w cwblhau'n lleol). Felly, bydd rhagnodwyr dibynadwy ar waith pan nad oes cytundeb storfa offer ar y cyd gyda'r sefydliad sy'n rhyddhau a'r sefydliad/ardal sy'n derbyn.

Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd dderbyn diweddariadau gan y storfa offer y maent yn Rhagnodydd Dibynadwy ar ei chyfer; ac i gael ei ddiweddarw ynghylch unrhyw newidiadau mewn anghenion offer neu hyfforddiant (bydd angen cytuno'n lleol ar fecanweithiau i wneud hyn wrth drafod cytundeb Rhagnodydd Dibynadwy).

4. I blant a phobl ifanc ag anghenion arbennig mewn ysgolion arbennig neu gartrefi plant neu mewn gofal maeth, bydd y bartneriaeth offer cymunedol lleol yn gyfrifol am ariannu Offer Cymunedol sy'n cwmparu'r Awdurdod Lleol sy'n ariannu'r lleoliad. Bydd hyn yn osgoi cosbi unrhyw awdurdod yn annheg oherwydd lleoliad cyfleusterau arbennig o fewn ei ffiniau. Bydd yr awdurdod cyflenwi yn hawlio ad-daliad gan yr awdurdod sy'n ariannu'r lleoliad.
5. Lle mae angen offer mewn dau leoliad oddi mewn i'r un Awdurdod Lleol ac ardal partneriaeth offer cymunedol ar gyfer plentyn ag anghenion arbennig; argymhellir, pan fydd plentyn yn preswyl gyda gofalwyr/rhieni, y bydd offer yn cael ei ddarparu yn y ddau eiddo os nad yw'r offer yn gludadwy neu'n drosglwyddadwy i wahanol amgylcheddau.
6. Lle mae gan ofalwyr/rhieni gyfrifoldeb preswyl ar y cyd ac yn rhannu cyfrifoldeb gofalwr ond lle mae un o'r gofalwyr wedi symud i Awdurdod Lleol y tu allan i ardal y bartneriaeth offer cymunedol, bydd yn ofynnol i Awdurdod Preswyl Lleol y rhiant hwnnw ariannu'r offer. Byddai'n anymarferol i Awdurdod Lleol yn ne-orllewin Cymru asesu, cyflenwi a chynnal a chadw offer yng nghartref rhiant sydd wedi symud i ogledd Cymru. Mewn achosion o'r fath, mae gan y ddau ofalwr hawl i dderbyn gwasanaeth gan eu Hawdurdod Lleol a'u bwrdd iechyd lleol. Gweler Atodiad 3 am y protocol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a leolwyd y tu allan i'r ardal.

7. Ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, yr awdurdod sy'n darparu'r statws derbyn gofal sy'n gyfrifol am ddarparu ar gyfer pob preswylfa. Gall yr asesiad ar gyfer yr offer fod yn anodd pan fydd pellteroedd ynghlwm wrthynt, felly dylai'r Rhagnodwyr Dibynadwy yn yr ardal honno asesu a darparu argymhellion ar gyfer yr offer sy'n ofynnol i'r awdurdod sy'n gyfrifol am y statws derbyn gofal. Dylid archebu'r offer lle mae'r plentyn yn byw er mwyn ei gyflenwi yn hawdd a bydd angen cytuno ar ariannu a chynnal a chadw a'i sefydlu yn ôl i'r awdurdod derbyn gofal. Mae'n hanfodol bod anghenion offer yn cael eu nodi cyn dechrau'r lleoliad er mwyn sicrhau pontio llyfn. Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn allweddol gyda'r cysylltu a'r cydweithredu hyn. Gall y storfa offer leol brynu offer wedi'i ddychwelyd am gost is neu gall yr awdurdod gwreiddiol wneud trefniadau lleol unigol i'w gludo i'w storfeydd ei hun.
 8. O ran plant a phobl ifanc o deuluoedd teithwyr, gall asesu a chyflenwi offer ym mhob lleoliad gymryd gormod o amser oherwydd eu bod yn treulio amser cyfyngedig mewn un ardal. Felly dylid darparu offer gan yr awdurdod y maent yn preswyllo ynddo i ddiwallu angen ac yna dylid darparu'r offer hwnnw i'r teulu fynd gyda nhw. Dylai'r therapydd yn yr ardal y symudwyd iddi wirio'r offer am dwf. Pan fydd y plentyn yn tyfu'n rhy fawr i'r offer neu anghenion yn newid, dylai'r awdurdod y mae'n preswyllo ynddo ar y pryd ailasesu a darparu offer. Oherwydd natur symudol y boblogaeth hon, dylid trosglwyddo'r ddyletswydd gofal a gwybodaeth ddigonol i'r rhiant/gofalwr ynghylch cynnal a chadw offer a darparu rhifau cyswllt os oes angen. Nid yw'n fwiad gan y canllaw hwn i nodi sut y bydd pob awdurdod yn cyfrif am y "gollod" hon o ran eu stoc.
 9. Pan fydd y person yn symud o un ardal Awdurdod Lleol i un arall, dylid gwneud pob ymdrech i'w alluogi i fynd ag unrhyw offer trosglwyddadwy (h.y. heb fod yn sefydlog) gyda nhw i osgoi oedi (mae hyn yn tybio bod yr offer yn addas i'w ddefnyddio yn yr amgylchedd newydd). Dylai gwasanaeth offer cymunedol yr Awdurdod Lleol newydd brynu'r offer ar gyfradd ddisgownt briodol.
- Nid bwriad y canllaw hwn yw mynd i'r afael â chostau offer o ran pa ostyngiad y dylid ei gymhwyso i offer penodol; dylid negodi hyn yn lleol trwy drafodaeth rhwng rheolwyr y storfeydd. Bydd yr Awdurdod Lleol newydd yn asesu'r anghenion am unrhyw offer neu addasiadau ychwanegol i gefnogi'r unigolyn yn ei gartref newydd.
- Disgwylir y bydd unigolion neu eu gofalwyr yn hysbysu'r Awdurdod Lleol o unrhyw adleoli, a dylid rhoi manylion cyswllt wrth ddarparu offer.
10. Bydd unrhyw unigolyn o fewn Awdurdod Lleol penodol yng Nghymru yn gymwys i gael offer gan ddarparwr Gwasanaeth Offer Cymunedol yr Awdurdod Lleol hwnnw. Er enghraifft, byddai unrhyw unigolyn sy'n byw yng Ngheredigion ac yn cael ei ryddhau o ysbyty yng Nghaerfyrddin yn derbyn offer wedi'i ddarparu gan Wasanaeth Offer Cymunedol Ceredigion, boed yn angen gofal cymdeithasol neu ofal iechyd. Bydd yr holl gyflenwadau yn unol â blaenoriaethau a dangosyddion perfformiad yr Awdurdodau Lleol.
 11. Mae'r cyfrifoldeb am drosglwyddo gofal yn ddiogel o'r ysbyty yn parhau i fod gydag ysbyty'r GIG. Mae gan staff ysbytai gyfrifoldeb i gyfathrebu â gwasanaethau GIG sylfaenol a chymunedol a'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol mewn perthynas â throsglwyddo gofal unigolion unigol. Rhaid i staff ysbytai wneud popeth o fewn eu gallu i gynnwys y therapydd neu'r nyrs briodol yn y broses o ryddhau'n ddiogel cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn helpu'r gwasanaeth offer cymunedol lleol i ymateb yn gyflymach i hwyluso rhyddhau. Bydd y gwasanaeth offer cymunedol lleol yn sicrhau bod offer yn cael ei osod yn ddiogel. Mewn achosion cymhleth, er enghraifft, bydd disgwyl i staff therapi'r ysbyty a staff y ward gysylltu â'r Therapydd Galwedigaethol sy'n derbyn yn lleol. Mae'n bosibl y bydd achosion cymhleth yn gofyn am ymweliad ar y cyd â'r cartref neu'r ysbyty gan y Therapydd Galwedigaethol sy'n rhyddhau a'r Therapydd Galwedigaethol sy'n derbyn yn lleol. Nid bwriad y canllaw hwn yw trafod dangosydd perfformiad allweddol Cymru gyfan ar gyfer pob awdurdod ac mae hyn yn parhau i fod yn darged lleol ar gyfer pob ardal.
 12. Sylwer bod yn rhaid trafod unrhyw brotocolau rhyddhau neu ddatblygiadau gwasanaeth newydd gyda'r darparwr Gwasanaeth Offer Cymunedol Lleol yn yr ardaloedd lle mae ysbyty'n rhyddhau unigolion yn rheolaidd. Rhaid i unrhyw newid wrth gyflenwi gwasanaethau (e.e. sefydlu gwasanaethau gofal canolraddol ychwanegol) fynd i'r afael â'r goblygiadau o ran unrhyw newid i alwadau ar Wasanaethau Offer Cymunedol. Dylai hyn sicrhau bod cynllunio gwasanaeth yn cynnwys gwasanaethau offer cymunedol ym mhob newid gwasanaeth, nid dim ond pan fydd galw ychwanegol, ond mae'n cydnabod pan fydd galw is neu wahanol iawn.
 13. Pan fydd gan ddarparwr yr offer bryderon ynghylch priodoldeb yr offer (e.e. nad oedd yn gweddu i amgylchedd y cartref) byddant yn cyfeirio'n ôl at ffynhonnell yr atgyfeiriad. Dylid rhoi adborth i ffynhonnell yr atgyfeiriad os nad yw'r offer yn briodol oherwydd gallai lywio ymarfer a chodi materion hyfforddi ynghylch rhagnodi offer gan wahanol grwpiau staff.

14. Gyda rhyddhau o'r ysbyty, lle mae terfynau amser yn caniatáu, bydd y Rhagnodydd Dibynadwy yn archebu'r offer trwy'r protocol. Fodd bynnag, i gefnogi llif cleifion a lle mae terfynau amser yn dynn, bydd y therapydd yn darparu eitemau bach o offer o'r is-storfeydd yn yr ysbyty. Noder nad oes mecanwaith cadarn ar waith ar hyn o bryd i adennill costau defnyddio offer is-storfeydd ar gyfer cleifion y tu allan i'r ardal. Nid yw'n fwriad gan y canllaw hwn i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai angen i bob bwrdd partneriaeth storfa offer fynd i'r afael â phenderfyniadau lleol ynghlwm wrth unrhyw gostau a chodi tâl cysylltiedig â hyn.
15. Bydd y Gwasanaeth Offer Cymunedol lleol yn monitro pob atgyfeiriad gan Ragnodwyr Dibynadwy, yn cynnwys unigolion sy'n gwneud atgyfeiriadau, offer y gofynnir amdano, a chost offer a dyddiad ei ddosbarthu a/neu ei osod. Bydd hyn yn ymddangos fel rhan o adroddiad chwarterol i'r bwrdd partneriaeth. Bydd angen sefydlu Rhagnodwyr Dibynadwy ar system TG y storfeydd offer. Gall y bwrdd partneriaeth wedyn fynd i'r afael ag unrhyw bryderon gyda'r ysbyty yn uniongyrchol. Gall hyn gynnwys pryderon am yr atgyfeirio, yr offer a ragnodir neu'r meini prawf cymhwysedd.
16. Bydd y Gwasanaeth Offer Cymunedol yn cyflenwi ac yn gosod yr offer. Lle bo hynny'n bosibl, dylai rhagnodydd gwreiddiol yr offer arddangos yr offer cyn i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty. Dylai'r rhagnodydd cychwynnol sicrhau bod unigolion yn gwybod sut i ddefnyddio offer yn ddiogel. Dylid cyfeirio unrhyw bryderon at y clinigydd lleol priodol. Gall y clinigydd lleol neu'r Rhagnodydd Dibynadwy ddangos i'r gofalwr neu ddarparwyr gwasanaeth eraill sut i ddefnyddio'r offer yn ôl yr angen. Mae cyfrifoldeb ar y darparwyr gwasanaeth (e.e. Gwasanaethau Gofal Cartref, gwasanaethau gofal preswyl) gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a'r sector annibynnol i gynnal eu hasesiad risg eu hunain wrth ddefnyddio'r offer.
17. Bydd Rhagnodwyr Dibynadwy yn Therapyddion Galwedigaethol ar raddfa Band 7 neu uwch (mewn amgylchiadau eithriadol e.e. Felindre, mae'n bosibl y bydd angen dirprwyo hyn i Therapydd Galwedigaethol cofrestredig arall sydd â sgiliau addas) neu uwch staff a enwebwyd gan yr Awdurdod Lleol, sy'n gweithio o fewn timau a nodwyd angen iddynt ofyn yn rheolaidd am offer ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd neu'r Awdurdod Lleol. Byddant yn gyfrifol am roi archebion ar gyfer cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd/Awdurdod Lleol i sicrhau cydymffurfiaeth â Phrotocol Trawsffiniol Rhagnodwyr Dibynadwy a Gwasanaethau Offer Cymunedol.
18. Y Bwrdd Iechyd sy'n rhyddhau sy'n gyfrifol am asesu a rhagnodi offer. Cyfrifoldeb y Therapydd Galwedigaethol o fewn y Bwrdd Iechyd sy'n rhyddhau yw sicrhau bod yr offer y gofynnir amdano gan unrhyw wasanaeth offer lleol yn cyfateb i'r hyn a nodwyd wrth asesu ac yn diwallu anghenion yr unigolyn. (cyfeiriwch at Atodiad 2)
19. Gan y gall manyleb offer amrywio ar draws Gwasanaethau Offer ar y Cyd, bydd angen i Ragnodwyr Dibynadwy nodi manylion dosbarthu offer gan gynnwys uchder a lleoliad offer yn seiliedig ar fesuriadau yn hytrach na gosodiadau offer.
20. Cyfrifoldeb y Rhagnodydd Dibynadwy yw sicrhau bod yr offer yn ei le cyn rhyddhau claf, gan ddefnyddio prosesau sefydledig a threfniadau dosbarthu pob ardal.
21. Bydd pob partneriaeth yn darparu hyfforddiant ar gyfer Rhagnodwyr Dibynadwy sy'n adlewyrchu'r hyfforddiant a ddarperir i ddefnyddwyr lleol.
22. Bydd archebion yn cael eu prosesu trwy systemau archebu electronig y bartneriaeth, e.e. CEquip. Fodd bynnag, pan nad yw hyn ar gael neu'n bosibl, bydd Rhagnodwyr Dibynadwy yn dychwelyd i ddefnyddio e-bost gyda ffurflen gais safonol a anfonir i'r Storfa Offer ar y Cyd. Cyfrifoldeb pob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol yw gwirio canllawiau diogelwch a GDPR ei sefydliad (Atodiad 3 ffurflenni y cytunwyd arnynt yn lleol).
23. Bydd Rhagnodwyr Dibynadwy yn gallu archebu offer yn unol ag offer y cytunwyd arno'n lleol ar gyfer rhestrau rhyddhau a/neu derfynau cyllideb penodedig. (Gweler Atodiad 2).
24. Pan nodir offer hanfodol ar gyfer rhyddhau nad sydd ar y rhestr hon, bydd yn ofynnol i Ragnodwyr Dibynadwy ofyn am awdurdodiad gan y deiliad cyllideb perthnasol. (Gweler Atodiad 2).

25. Pan fydd yn berthnasol, bydd yn ofynnol i Ragnodwyr Dibynadwy archebu yn erbyn meini prawf sy'n nodi benthyciad tymor hir neu dymor byr.
26. Dylid codi unrhyw bryderon gyda'r Rhagnodydd Dibynadwy priodol a/neu'r clinigydd rhagnodi. Os canfyddir bod yr offer yn anaddas ar yr adeg pan gafodd ei osod, bydd y Gwasanaeth Offer ar y Cyd yn cysylltu â'r Rhagnodydd Dibynadwy.

Llywodraethiant

27. Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r holl swyddi hynny sydd wedi'u dynodi'n Ragnodwyr Dibynadwy. Rhennir y cofnod hwn gyda phob gwasanaeth offer ar y cyd a deiliaid cyllideb. Bydd y rhestr hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan yr holl Arweinwyr Therapi Galwedigaethol i sicrhau bod staff yn y swyddi hyn yn cael eu diweddarau ynghylch prosesau lleol ac unrhyw newidiadau i offer.
28. Cytunir ar y protocol hwn a'r mynediad at ddata defnyddwyr gwasanaeth gan ddilyn trefniadau GDPR a llywodraethu gwybodaeth ar gyfer pob partneriaeth.
29. Disgwylir i bob Rhagnodydd Dibynadwy fod wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol oddi mewn i'w sefydliad cyflogi mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth a diogelwch TG.
30. Bydd storfeydd offer yn hysbysu Rhagnodwyr Dibynadwy o unrhyw newidiadau i offer a/neu ofynion hyfforddi.
31. Bydd Rhagnodwyr Dibynadwy yn gwirio bod y Therapydd Galwedigaethol wedi sicrhau bod cleifion a/neu ofalwyr yn gallu gosod a defnyddio'r offer yn gywir (e.e. sedd tŷ bach uwch). Bydd y Therapydd Galwedigaethol sy'n rhyddhau hefyd yn sicrhau cyflawni unrhyw waith dilynol gofynnol wrth ddefnyddio'r offer neu osod offer mwy arbenigol e.e. fod teclyn codi yn ei le fel rhan o drefniadau rhyddhau cadarn.

Trefniadau Monitro

32. Disgwylir i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ddarparu adroddiadau chwarterol ar batrymau rhagnodi Rhagnodwyr Dibynadwy trwy eu mecanweithiau adrodd sefydledig. Lle mae patrymau rhagnodi heb eu hesbonio ac yn gwyro oddi wrth gytundebau lleol, bydd hyn yn cael ei adolygu a'i drafod gydag Arweinwyr Therapi Galwedigaethol.
33. Bydd y canllaw hwn yn cael ei adolygu gan bartneriaethau'r Gwasanaeth Offer ar y Cyd a'r Arweinwyr Therapi Galwedigaethol pe bai patrymau atgyfeirio yn newid yn unol â datblygiadau gwasanaeth sylweddol neu newidiadau i lif cleifion.

Atodiad 1 - offer Trawsffiniol hanfodol er mwyn rhyddhau gan Awdurdodau Lleol (angen tymor hir dros 12 wythnos) a Byrddau Iechyd (defnydd tymor byr dan 12 wythnos) yng Nghymru

	Blaenau Gwent	Pen-y-bont	Caerffili	Caerdydd	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Gwynedd
Sedd tŷ bach uwch										
Ffrâm a sedd tŷ bach										
Amgylchynau/fframiau tŷ bach – sefydlog neu symudol										
Tŷ bach cemegol (cyflawn) gyda stand										
Comôd (statig/symudol)										
Offer codi cadair										
Offer codi gwely										
Ffon wely										
Liferi gwely										
Disgiau troi										
Trofyrddau sefyll										
Gwregysau trin										
Cymorth claf yn y cartref (dolenni tynnu uwchben gwelyau)										
Bwrdd trosglwyddo										
Rampiau cludadwy										
Cynfasau llithro										
Troli										
Stôl glwydo										
Cadi ffrâm gerdded										
Teclyn codi										
Slingiau										
Lloriau polycarbonad										

	Bro Morgannwg	Wrecsam	BIP Abertawe Bro Morgannwg	BILI Aneurin Bevan	BIP Betsi Cadwaladr	BIP Caerdydd a'r Fro	BIP Cwm Taf	BILI Hywel Dda	BI Addysgu Powys
Sedd tŷ bach uwch									
Ffrâm a sedd tŷ bach									
Amgylchynau/fframiau tŷ bach – sefydlog neu symudol									
Tŷ bach cemegol (cyflawn) gyda stand									
Comôd (statig/symudol)									
Offer codi cadair									
Offer codi gwely									
Ffon wely									
Liferi gwely									
Disgiau troi									
Trofyrdau sefyll									
Gwregysau trin									
Cymorth claf yn y cartref (dolenni tynnu uwchben gwelyau)									
Bwrdd trosglwyddo									
Rampiau cludadwy									
Cynfasau llithro									
Troli									
Stôl glwydo									
Cadi ffrâm gerdded									
Teclyn codi									
Slingiau									
Lloriau polycarbonad									

Offer Pediatrig

	Blaenau Gwent	Pen-y-bont	Caerffili	Caerdydd	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Gwynedd
Seddau arbenigol										
Ymolchi plant										
Toiledu plant										
Byrddau newid plant										
Systemau cysgu plant										
Gwelyau plant bach										
Teclyn codi										
Slingiau										
Cynfasau llithro										
Lloriau polycarbonad										


	Ynys Môn	Merthyr Tudful	Sir Fynwy	Castell-nedd Port Talbot	Casnewydd	Sir Benfro	Powys	Rhondda Cynon Taf	Abertawe	Torfaen
Seddau arbenigol										
Ymolchi plant										
Toiledu plant										
Byrddau newid plant										
Systemau cysgu plant										
Gwelyau plant bach										
Teclyn codi										
Slingiau										
Cynfasau llithro										
Lloriau polycarbonad										

Offer Pediatrig

	Bro Morgannwg	Wrecsam	BIP Abertawe Bro Morgannwg	BILI Aneurin Bevan	BIP Betsi Cadwaladr	BIP Caerdydd a'r Fro	BIP Cwm Taf	BILI Hywel Dda	BI Addysgu Powys	
Seddau arbenigol										
Ymolchi plant										
Toiledu plant										
Byrddau newid plant										
Systemau cysgu plant										
Gwelyau plant bach										
Teclyn codi										
Slingiau										
Cynfasau llithro										
Lloriau polycarbonad										

Atodiad 2

Siart llif gweithredu Rhagnodydd Dibynadwy ar gyfer rhyddhau o ysbyty



Atodiad H: Trosolwg o wneud penderfyniadau ac uwchgyfeirio

Overview of Discharge Decision Making & Escalation to ensure hospital and community beds are freed up



Key Steps	Decision Points & Responsibilities	Route of Escalation
Morning Ward Round	Medical decision to discharge discharge pathway confirmed (Lead: Senior Dr in ward)	Executive Director in Acute
Waiting in discharge area in hospital	Case manager agreed (Lead: Local coordinator in acute) Discharge activities agreed incl. transport and medication (Lead: Single coordinator in acute)	Executive Director in Acute
Patient leaves hospital or community bed	Transport to home / bedded setting (Lead: Single coordinator in acute)	Executive Director in Acute (for acute issues) and Director of Community Services (for community health issues)

Overview of Discharge Decision Making & Escalation to ensure assessment and support is provided



Key Steps	Decision Points & Responsibilities	Route of Escalation
Assessment at home	Trusted assessor visit for those on pathway 1– acute or community health care professional (Lead: Single coordinator in acute)	Executive Director in Acute (for acute issues), Executive Director of Community Services (for community health issues) and Director of Adult Social Services (for social care issues)
Care provided as needed	At home support provided as needed by health and/or social care (Lead: Single coordinator in acute)	Executive Director of Community Services (for community health issues) and Executive Director of Adult Social Services (for social care issues)
Review post short term support	Ongoing short term support as needed by health and/or social care or discharge from all support (Lead: Single coordinator in acute)	Executive Director of Community Services (for community health issues) and Executive Director of Adult Social Services (for social care issues)